

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru Adroddiad blynyddol a chyfrifon

Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014

Mae'r fersiwn Gymraeg o'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon yn gyfieithiad o'r fersiwn Saesneg archwiledig wreiddiol, a CCAUC sydd â chyfrifoldeb am gywirdeb y cyfieithiad, nid Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Adroddiad blynyddol

Sylwebaeth ar reolaeth

Ynglŷn â CCAUC

Sefydlwyd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) o dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992. Ar 1 Gorffennaf 1999, daeth CCAUC yn un o gyrff noddedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru a oedd newydd gael ei sefydlu. Yn dilyn hyn, fe'n galwyd yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad (Deddf Llywodraeth Cymru 2006) ac yna, yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru ym mis Mai 2011.

Mae CCAUC yn gorff cyfryngol rhwng Llywodraeth Cymru a'r sector addysg uwch (AU) yng Nghymru, ac rydym yn darparu cyngor arbenigol i Lywodraeth Cymru am y sector.

Rydym yn dosbarthu cyllid a ddarperir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer AU.

Mae'r cyllid hwn yn cynnwys:

- Grant ffioedd dysgu i israddedigion amser-llawn sy'n byw yng Nghymru.
- Cyllid addysgu, cyllid ymchwil a chyllid arall i brifysgolion Cymru.
- Cyrsiau AU mewn colegau addysg bellach.

Mae CCAUC yn cefnogi'r system AU yng Nghymru i gyflenwi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, gan sicrhau dysgu, addysgu ac ymchwil o ansawdd uchel, a chan gyfrannu at ddiwylliant, cymdeithas ac economi Cymru.

Mae CCAUC hefyd yn achredu darparwyr hyfforddiant cychwynnol athrawon (HCA) ar gyfer athrawon ysgol. Mae ein cyfrifoldebau am HCA yn cael eu cwmpasu o dan Reoliadau Addysg (Cymwysterau Athrawon Ysgol) (Cymru) 2004 a Deddf Addysg 2005.

Drwy gydol y flwyddyn, mae elfennau allweddol strategaeth CCAUC yn dal i fod y rhai a nodwyd yn ei strategaeth gorfforaethol ar gyfer 2010-11 i 2012-13. Fe'u diweddarwyd yn fersiwn diwygiedig 2013-14 i 2015-16, ac fe'u nodir isod.

Fframwaith strategol

Amlinellir ein fframwaith strategol yn Strategaeth Gorfforaethol CCAUC 2013-14 i 2015-16 fel a ganlyn:

Ein fframwaith strategol

Gweledigaeth

Addysg uwch gynaliadwy, hygyrch, ragorol ar lefel ryngwladol



I gyflawni

cyfiawnder cymdeithasol ac economi fywiog



Themâu Strategol Allweddol

Ehangu Mynediad	Profiad y Myfyriwr	Sgiliau, Cyflogadwyedd a Menter	Arloesedd ac Ymgysylltu	Ymchwil
Sicrhau cynhwysiant, dilyniant a llwyddiant mewn addysg uwch	Sicrhau addysg uwch o ansawdd rhagorol a phrofiad myfyrwr, wedi'i hategu gan lais y myfyrwr	Sicrhau graddedigion sydd â'r sgiliau ar gyfer bywyd a gwaith, a phrifysgolion sy'n cyfrannu at weithlu wedi'i uwchsgilio	Sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei chymhwyso a'i defnyddio i gyflenwi cyfiawnder cymdeithasol ac economi fywiog	Sicrhau ymchwil o ansawdd sy'n rhagorol yn rhyngwladol i gyflenwi economi bywiog a chefnogi cyfiawnder cymdeithasol



Themâu Galluogi

Ail-gyflunio a Chydweithio

Sicrhau system addysg uwch ailgyfluniedig gyda darparwyr cryf sydd, drwy weithio mewn partneriaeth gydweithredol, yn enwedig yn rhanbarthol, yn cynnig cyfleoedd addysg uwch mwy hygyrch a chynnig addysg uwch cryfach ar draws Cymru.

Llywodraethu

Sicrhau gwelliannau parhaus yn ansawdd llywodraethu a chynaliadwyedd tymor hir y system addysg uwch.

Effeithiolrwydd Sefydliadol

Bod yn sefydliad sy'n cael ei redeg yn dda sy'n gost effeithiol a fydd yn gweithio'n gynhyrchiol mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a darparwyr addysg uwch, yn unigol ac ar y cyd.

Cynnydd yn erbyn mesurau'r Strategaeth Gorfforaethol

Er mwyn monitro ein cynnydd dros y tair blynedd diwethaf yn erbyn y deuddeg mesur a nodwyd yn ein dogfen Strategaeth Gorfforaethol 2010-11 i 2012-13, nodir isod gwybodaeth ar gyfer y flwyddyn academaidd hyd 31 Gorffennaf 2013. Lle ceir bylchau, bydd data ar gael erbyn diwedd Medi 2014.

Hon yw'r flwyddyn olaf y byddwn yn adrodd yn erbyn y mesurau yn y Strategaeth Gorfforaethol hon, sy'n seiliedig ar egwyddorion strategaeth addysg uwch Llywodraeth Cymru yn 2009 'Er Mwyn ein Dyfodol'.

Mae ein Strategaeth Gorfforaethol o 2013-14 i 2015-16, a oedd yn ystyried datblygiadau gan gynnwys datganiad polisi Llywodraeth Cymru am addysg uwch, yn cynnwys 17 o fesurau. Bydd y rhan fwyaf o'r data a fydd yn ein caniatáu i asesu cynnydd yn erbyn y mesurau newydd a diwygiedig hyn ar gael yn 2015 wrth inni gynhyrchu ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon nesaf (2014-15).

Cynnydd yn erbyn mesurau strategol

	Gwaelodlin	Cynnydd	Cynnydd	Cynnydd	Cynnydd
1 Cynnydd o 10% yng nghyfran y myfyrwyr sy'n dod o Gymru ac sy'n astudio cyrsiau addysg uwch mewn sefydliadau addysg uwch a sefydliadau addysg bellach yng Nghymru sy'n byw yn Ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf Cymru, o 15.6% yn 2008/09 i 17.2% yn 2012/13.					
	2008/09	2009/10	2010/11	2011/12	2012/13
	15.6%	16.2%	16.5%	16.9%	17.3%
2 Cynnydd o 2.7% yn y gyfradd cwblhau modiwlau ar gyfer cofrestrïadau israddedig yn sefydliadau addysg uwch Cymru, o 87.6% yn 2008/09 i 90% yn 2012/13.					
	2008/09	2009/10	2010/11	2011/12	2012/13
	87.6%	90.1%	92.5%	93.7%	95.1%
3 Bydd y sgôr gyfartalog dreigl dair blynedd ar gyfer Cymru yng nghwestiwn 'bodlonrwydd cyffredinol'* yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr yn hafal i, neu'n fwy na'r sgôr gymharol ar gyfer y DU.					
<i>* 'Mae 'sgôr' yn golygu canran y myfyrwyr a gytunodd gyda 'Yn gyffredinol, rwy'n fodlon ar safon fy nghwrs'.</i>					
Sgôr gyfartalog dreigl 3 blynedd	2007 i 2009	2009 i 2011	2010 i 2012	2011 i 2013	2012 i 2014
Sefydliadau AU Cymru	83.3%	82.7%	83%	83.7%	Data ddim ar gael ar hyn o bryd
Sefydliadau AU y DU	81.7%	82.7%	83.7%	84.3%	Data ddim ar gael ar hyn o bryd

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru

	Gwaelodlin	Cynnydd	Cynnydd	Cynnydd	Cynnydd
<p>4 Bydd nifer y myfyrwyr sy'n dod o Gymru mewn sefydliadau addysg uwch a sefydliadau addysg bellach yng Nghymru sy'n ymgymryd â rhyw elfen o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg yn codi o 4,586 yn 2008/09 i 5,509 yn 2012/13.</p> <p><i>*Mae'r waelodlin a'r targed wedi cael eu diwygio i adlewyrchu cywiriad data 2008/09.</i></p>					
	2008/09	2009/10	2010/11	2011/12	2012/13
	4,586	4,612	4,690	4,328	Data ddim ar gael ar hyn o bryd
<p>5 Bydd y twf canrannol yn nifer y myfyrwyr tramor sy'n mynychu cyrsiau addysg uwch yn sefydliadau addysg uwch Cymru yn hafal i, neu'n fwy na, y ffigur cymaradwy ar gyfer sefydliadau addysg uwch y DU (ac eithrio Llundain a De-ddwyrain Lloegr).</p>					
twf %	2007/08 i 2008/09	2008/09 i 2009/10	2009/10 i 2010/11	2010/11 i 2011/12	2011/12 i 2012/13
Sefydliadau AU Cymru	15.1%	26.7%	16.4%	-1.5%	-1.4%
Sefydliadau AU y DU (ac eithrio Llundain a De-ddwyrain Lloegr)	10.4%	11.9%	8.5%	2.6%	0.7%
<p>6 Bydd y gyfran o raddedigion sy'n gadael addysg uwch gyda graddau cyntaf o gyrsiau amser-llawn ac sydd mewn gwaith, yn astudio, neu'r ddau chwe mis ar ôl gadael, yn hafal i, neu'n fwy na'r gyfran ar gyfer y DU erbyn 2012/13.</p>					
% a gyflogwyd / sy'n astudio ar ôl 6 mis	2008/09	2009/10	2010/11	2011/12	2012/13
Sefydliadau AU Cymru	91.2%	91.9%	91.0%	91.6%	Data ddim ar gael ar hyn o bryd
Sefydliadau AU y DU	89.9%	90.4%	90.3%	90.8%	Data ddim ar gael ar hyn o bryd
<p>7 Bydd cyfradd cyfranogiad absoliwt o fewn darparwyr addysg uwch Cymru o fyfyrwyr ym mhwm awdurdod unedol Athrofa Prifysgolion Blaenau'r Cymoedd yn cynyddu 8% i'r cyfartaledd cenedlaethol presennol erbyn 2012/13 (o 2.5% i 2.7%).</p>					
	2007/08	2008/09	2009/10	2010/11	2011/12
	2.5%	2.5%	2.5%	Data ddim ar gael ar hyn o bryd	Data ddim ar gael ar hyn o bryd

	Gwaelodlin	Cynnydd	Cynnydd	Cynnydd	Cynnydd
8 Bydd cyfanswm y myfyrwyr rhan-amser sy'n astudio cyrsiau addysg uwch mewn sefydliadau addysg uwch a sefydliadau addysg bellach yng Nghymru yn codi o 54,714 yn 2008/09 i 59,000 yn 2012/13.					
	2008/09	2009/10	2010/11	2011/12	2012/13
	54,714	50,243	50,020	49,136	46,946
9 Bydd nifer y cwmnïau deilliadol gweithredol sydd wedi goroesi am dair blynedd o leiaf yn cynyddu 10% o 252 yn 2008/09 i 277 yn 2012/13.					
	2008/09	2009/10	2010/11	2011/12	2012/13
	252	301	376	445	463
10 Bydd y twf canrannol blynyddol mewn incwm o'r Cynghorau Ymchwil yn hafal i, neu'n fwy na, y ffigur cymaradwy ar gyfer sefydliadau addysg uwch y DU (heb gynnwys y 'triongl euraid', sef Rhydychen, Caergrawnt a Llundain). [Yn 2008/09, roedd incwm AU Cymru o'r Cynghorau Ymchwil yn cyfrif am 4.8% o gyfanswm y DU, heb gynnwys prifysgolion y 'triongl euraid'.]					
twf % incwm ar gyfer:	2007/08 i 2008/09	2008/09 i 2009/10	2009/10 i 2010/11	2010/11 i 2011/12	2011/12 i 2012/13
Sefydliadau AU Cymru	17.4%	3.0%	1.2%	-3.6%	-10.1%
Sefydliadau AU y DU	13.9%	3.1%	-2.7%	-4.0%	1.6%
11 Bydd gan o leiaf 75% o sefydliadau addysg uwch Cymru incwm blynyddol sy'n fwy na'r canolrif ar gyfer y DU (36% yn 2008/09), ac ni fydd unrhyw sefydliad yn y chwarter isaf erbyn 2012/13 (4 yn 2008/09).					
	2008/09	2009/10	2010/11	2011/12	2012/13
Yn fwy na'r canolrif ar gyfer y DU	36% (4 sefydliad o blith 11)	45% (5 sefydliad o blith 11)	40% (4 sefydliad o blith 10)	40% (4 sefydliad o blith 10)	50% (4 sefydliad o blith 8)
	2008/09	2009/10	2010/11	2011/12	2012/13
Yn y chwarter isaf	36% (4 sefydliad o blith 11)	36% (4 sefydliad o blith 11)	30% (3 sefydliad o blith 10)	30% (3 sefydliad o blith 10)	13% (1 sefydliad o blith 8)

	Gwaelodlin	Cynnydd	Cynnydd	Cynnydd	Cynnydd
12 Ni fydd unrhyw sefydliad addysg uwch yn cael ei ddosbarthu'n 'risg uchel' o dan brosesau adolygu risg sefydliadol CCAUC.					
	2008/09	2009/10	2010/11	2011/12	2012/13
Nifer y sefydliadau AU a ddosbarthwyd yn 'risg uchel'	0	0	0	0	0

DS Bu newid o ran mesur strategol 12 ers diwedd y flwyddyn academaidd i 31 Gorffennaf 2013. Mae un sefydliad addysg uwch bellach wedi'i ddosbarthu'n 'risg uchel'.

Cynnydd yn erbyn blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a nodwyd yn ein cynllun gweithredol

Yn bennaf, mae'r tasgau yng nghynllun gweithredol CCAUC yn seiliedig ar flaenoriaethau a nodwyd gan Lywodraeth Cymru yn ei llythyr cylch gwaith blynyddol atom.

O'r 42 cam a nodwyd yng nghynllun gweithredol 2013-14, cyflawnwyd 30 ohonynt yn llawn, a chafodd 10 eraill eu cyflawni'n llwyddiannus, ond o ganlyniad i gyflawni'r rhain, datblygwyd darnau o waith ychwanegol ac erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, ni chwblhawyd y rhain yn llawn. Mae diweddariadau chwarterol a chyfarfodydd monitro gyda Llywodraeth Cymru'n sicrhau asesiad parhaus o'n llwyddiannau ac yn rhoi cyfle inni fynd i'r afael â meysydd nad ydynt yn dangos cynnydd boddhaol.

Yn ystod y cyfnod adrodd, gwnaethom:

- Gwblhau'r ymgynghoriad ar y cynllun gweithredu rhan-amser, sy'n llywio'r gwaith o ddatblygu datganiad sefyllfa am ddysgu rhan-amser. Bydd hyn, yn ei dro, yn bwydo i ymateb CCAUC i Adolygiad Diamond ynglŷn â chyllido addysg uwch i Lywodraeth Cymru sydd ar y gweill.
- Gwneud argymhellion i'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch ynglŷn â newidiadau i'r broses adolygu sefydliadol yng Nghymru, yn dilyn ymgynghoriad â'r sector addysg uwch.
- Cyhoeddi astudiaethau achos o arferion da o ran cyllido undebau myfyrwyr a chynrychiolaeth myfyrwyr, a gwnaethom ddiweddarau'n canllawiau yn y meysydd hyn.
- Annog dysgu digidol a darparu cyllid i fewnblannu Adnoddau Addysg Agored mewn sefydliadau AU.
- Cyflawni ein rhaglen cyflogadwyedd i raddedigion, GO Wales, yn ogystal ag alinio gweithgareddau cysylltiol Twf Swyddi Cymru.

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru

- Cynorthwyo'r sector AU i barhau i wella o ran ymgysylltu â'r gymuned fusnes drwy gyllido a monitro prosiectau arloesi ac ymgysylltu (A ac Y) cydweithredol, yn unol â strategaeth 'Arloesi Cymru' Llywodraeth Cymru.
- Cyfrannu'n ariannol at raglen Sêr Cymru, sy'n sefydlu timau ymchwil wyddonol arbenigol mewn prifysgolion, yn ogystal â chynnal lefel ein cyllid ar gyfer ymchwil o ansawdd yng Nghymru.

Fel sefydliad gwnaethom:

- Lansio ein Strategaeth Gorfforaethol tair blynedd newydd.
- Ymateb i Ymgynghoriad Technegol Llywodraeth Cymru ar y Bil AU (Cymru).
- Adrodd yn erbyn ein Cynllun Iaith Gymraeg a'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol, ac am arbedion effeithlonrwydd yn erbyn gwariant caffael yr oeddem yn gallu dylanwadu arnynt.

Risgiau Strategol CCAUC

Cytunodd y Cyngor ar gofrestr risgiau corfforaethol diwygiedig o risgiau strategol allweddol CCAUC ym mis Mawrth 2013 ac mae'n destun adolygu rheolaidd.

Mae'r gofrestr risgiau corfforaethol wedi'i strwythuro i adlewyrchu pob risg sylweddol a aseswyd gan dimau CCAUC o ran eu hamcanion a'u prosiectau, gan gynnwys yr holl amcanion priodol sy'n ymwneud â chynlluniau gweithredol neu faterion corfforaethol. Byddai'r risgiau hyn a nodwyd, pe baent yn cael eu gwireddu, yn cael effaith negyddol sylweddol ar CCAUC a/neu ar y sector addysg uwch yng Nghymru yn gyffredinol.

Wrth ystyried y risgiau hyn gallwn asesu p'un a yw ein strategaeth gorfforaethol a'n cynllun gweithredu yn dal i fod yn ddilys yn erbyn newidiadau mewn amgylchiadau, ac yn ein caniatáu i wneud newidiadau yn ôl yr angen. Nid yw hyn yn golygu ein bod yn disgwyl i'r risgiau hyn gael eu gwireddu – yn hytrach, mae'n dangos bod y rhain yn feysydd risg y mae angen inni fod yn ymwybodol ohonynt ac ymateb iddynt, fel y bo'n briodol, er mwyn cyflawni ein swyddogaeth mewn ffordd effeithiol.

Maes risg	Prif risg(iau)
Cynaliadwyedd a sicrwydd	<ul style="list-style-type: none">• Athrofa Prifysgolion Blaenau'r Cymoedd yn methu â chyflawni ei nodau o fewn yr amserlen y cytunwyd arni.• CCAUC yn methu â chyflawni ei darged corfforaethol o sicrhau bod gan 75% o'r sector incwm sy'n uwch na'r canolrif ar gyfer y DU a dim ond un sefydliad Addysg Uwch yn y chwarter isaf erbyn blwyddyn gyfrifyddu 2012/13.• Darparwyr addysg uwch yn methu â chynnal partneriaethau rhanbarthol effeithiol.• Sefydliadau AU yn methu â chydymffurfio â Memorandwm Ariannol CCAUC a chynnal eu cynaliadwyedd ariannol hirdymor.
Ehangu mynediad	<ul style="list-style-type: none">• Sector AU yn methu â chyflawni targed rhan-amser y polisi 'Er Mwyn ein Dyfodol'.

Maes risg	Prif risg(iau)
Profiad y myfyriwr	<ul style="list-style-type: none"> • Sector AU yn methu â chyrraedd targed 'Er Mwyn ein Dyfodol' ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg. • Ansawdd dysgu'r sector AU yn dioddef yn sgil newidiadau i gyllid CCAUC. • Sector AU yn methu â chyflawni'r cwota HCA yn y drefn ffioedd newydd
Ymchwil	<ul style="list-style-type: none"> • Sector AU yn methu â chyflawni disgwyliadau Llywodraeth Cymru o ran perfformiad ymchwil sy'n tanategu'r amcanion a nodwyd yn 'Er Mwyn ein Dyfodol'. • Sector AU yn methu â pharatoi'n ddigonol ar gyfer Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2014.
Trosglwyddo gwybodaeth	<ul style="list-style-type: none"> • Y sector AU a rhanddeiliaid yn camddechongli lleihad yng nghyllido IEF ym mlwyddyn gyfrifyddu 2013/14 ac yn ystyried hyn yn arwydd nad yw arloesi ac ymgysylltu bellach yn rhan ganolog o agenda'r sector.
Cyflenwi polisïau	<ul style="list-style-type: none"> • Awdurdodau lleol Cymru yn asesu ar gam bod myfyrwyr yn byw yng Nghymru, ac felly'n gymwys am gymorth ffioedd dysgu.
Risgiau gweithredu CCAUC	<ul style="list-style-type: none"> • Llwyth gwaith yn cynyddu'n fwy na gallu staff. • Ail-ddylunio trefniadaeth CCAUC yn cael effaith negyddol ar ei allu i ddarparu. • Polisïau Llywodraeth Cymru yn methu â gwerthfawrogi'r elfen AU mewn meysydd polisi. • Cyllido CCAUC, yn dilyn newidiadau i grantiau ffioedd myfyrwyr, yn annigonol o ran mynd i'r afael â blaenoriaethau craidd.

Cyfrifon

Cynhyrchwyd y cyfrifon hyn yn unol â'r cyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru gyda chaniatâd Trysorlys ei Mawrhydi, wrth arfer pwerau a roddwyd ym mharagraff 16 (2) o atodlen 1 Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992. Gellir cael copi o'r cyfarwyddyd gan CCAUC.

Mae'r cyfrifon yn cael eu paratoi yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FReM) a gyhoeddir gan Drysorlys ei Mawrhydi. Mae'r polisïau cyfrifyddu yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth yn gweithredu Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol fel y'u haddaswyd neu ddechonglwyd ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus.

Mae'r datganiadau hyn yn cwmpasu'r unfed cyfnod adrodd ar hugain i CCAUC, ac yn adlewyrchu datblygiad parhaus systemau a pholisïau CCAUC.

Adolygiad ariannol

Wrth ddarparu'r amcanion a'r nodau strategol a amlinellir yn y tudalennau blaenorol, gwnaeth CCAUC dderbyn cyfanswm o £380.6 miliwn o gymorth grant gan Lywodraeth Cymru (2012-13: £373.7 miliwn). Er bod hyn yn cynrychioli cynnydd blynyddol bach yn y cyllid cyffredinol, talwyd cyfran uwch o'r cyllid fel grantiau cymorth ffioedd dysgu i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfrwyr (SLC), sef cyfanswm o £129.3 miliwn (2012-13 : £48.1 miliwn), a hon oedd ail flwyddyn ariannol (a'r flwyddyn lawn gyntaf) y trefniadau newydd ar gyfer

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru

cyllido myfyrwyr. Canlyniad hyn yw gostyngiad yn y ffioedd a ddosbarthir gan CCAUC ar sail ddewisol.

Yn ogystal â chyllid cymorth grant gan Lywodraeth Cymru, derbyniwyd £11.6 miliwn o incwm arall yn 2013-14 (2012-13: £22.0 miliwn).

Cyfanswm gwariant yn 2013-14 oedd £397.6 miliwn (2012-13: £391.9 miliwn). O hyn, mae £395.2 miliwn (2012-13: £389.0 miliwn) yn ymwneud â chyllido addysg uwch ac mae £2.4 miliwn (2012-13: £2.9 miliwn) yn ymwneud â chostau yr aeth CCAUC iddynt wrth reoli a dosbarthu cyllid grant i'r sector addysg uwch ac i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfywyr. Cyflawnwyd arbedion yng ngwariant CCAUC yn bennaf o ganlyniad i arbedion effeithlonrwydd o ran costau staff yn dilyn gweithredu cynllun ymadael gwirfoddol yn 2012-13, ynghyd ag effeithiau arbedion effeithlonrwydd o ran adeiladau yn y flwyddyn lawn gyntaf sy'n deillio o leihad yn y gofod swyddfa a ddefnyddir a threfniadau rhentu ar les mwy ffafriol a ddaeth i rym hanner ffordd drwy 2012-13.

Y costau gweithredu net ar gyfer y flwyddyn oedd £386.0 miliwn (costau gweithredu net 2012-13 oedd £369.9 miliwn). Cronfa gyffredinol gronnu ecwiti trethdalwyr ar 31 Mawrth 2014 ar ôl credydu'r cyllid cymorth grant y cyfeirir ato uchod, oedd £6.4 miliwn (31 Mawrth 2013: £11.8 miliwn). Bydd y cyfrifon ariannol bob tro yn cofnodi canlyniad costau gweithredol net ar gyfer y flwyddyn o ganlyniad i gyllid a dderbyniwyd gan gronfa ecwiti gyffredinol y trethdalwyr yn cael ei gredu yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol. Hefyd, mae gweithgareddau CCAUC yn cael eu cynllunio i sicrhau bod yr arian parod a ddygir ymlaen ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yn aros o fewn dau y cant o gyfanswm y cymorth grant ar gyfer y flwyddyn, fel y caniateir gan Lywodraeth Cymru.

Daeth gwariant ar eiddo, offer a chyfarpar i gyfanswm o £67 mil yn y flwyddyn.

Cyfranogiad cyflogeion

Mae cyfarfodydd a seminarau rheolaidd â staff yn sicrhau bod cyfathrebu mewnol da, ac maent yn cynnig cyfleoedd i'r staff gyfrannu at waith CCAUC. Mae Cyngor Gwaith, sy'n galluogi cynrychiolwyr i nodi materion o bryder i staff, yn cwrdd yn rheolaidd. Mae proses ymgynghori ffurfiol ar waith sy'n ategu mecanwaith ymgynghori'r Cyngor Gwaith a hefyd y broses ar gyfer newidiadau i bolisiau a gweithdrefnau.

Yn 2000, llwyddodd CCAUC i ennill y wobwr Buddsoddwyr mewn Pobl. Cafodd y wobwr hon ei hail-asesu ym mis Mawrth 2012 a gwelwyd bod CCAUC yn dal i fodloni'r safonau gofynnol.

Mae CCAUC wedi ymrwmo i ddatblygu ei bolisiau cydraddoldeb ac amrywiaeth er mwyn sicrhau bod ei holl gyflogeion yn cael eu trin yn deg, yn annibynnol ar unrhyw nodwedd warchodedig fel y'i diffinnir yn y Ddeddf Cydraddoldeb.

Mae polisi CCAUC ar recriwtio yn seiliedig ar Egwyddorion Recriwtio'r Gwasanaeth Sifil o ran penodiadau'n cael eu gwneud yn ôl haeddiant, ar sail cystadleuaeth deg ac agored.

Mae CCAUC wedi cyflawni'r wobwr anabledd 'Symbol y Tic Dwbl' ac wedi ymrwmo i fodloni'r pum ymrwymiad sy'n ymwneud â recriwtio, hyfforddiant, cadw staff, ymgynghori ac ymwybyddiaeth o anabledd.

Yn 2009, CCAUC oedd y sefydliad cyntaf yng Nghymru i ennill gwobr iechyd y gweithle bach gan Lywodraeth Cymru ar lefel arian. Mae'r wobwr yn cydnabod camau a gymerwyd mewn sefydliadau llai er mwyn helpu i wella iechyd a lles staff. Cymeradwywyd CCAUC am yr ystod o ddeunyddiau ac adnoddau a oedd ar gael i gyflogeion, a'r polisiau a gweithdrefnau ar waith a oedd yn hybu iechyd a lles meddyliol a chorfforol. O ganlyniad i'r

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru

Ileihad a fu yn adnoddau'r staff yn ystod 2012-13, gwnaeth CCAUC adolygu ei darged ar gyfer y wobr ac fe'i gwobrwywyd â'r safon efydd ym mis Tachwedd 2012.

Materion cymunedol a hawliau dynol

Fel rhan o'i gynllun absenoldeb arbennig, mae CCAUC yn dal i gynnig opsiwn o gymryd hyd at ddau ddiwrnod o absenoldeb gyda thâl bob blwyddyn i aelodau o'i staff ar gyfer gwirfoddoli i gynorthwyo elusennau neu grwpiau cymunedol lleol. Mae CCAUC wedi atgyfnerthu ei gysylltiadau â chymunedau lleol drwy ei aelodaeth o Rwydwaith Cydraddoldeb De-ddwyrain Cymru (SEWEN).

Mae CCAUC yn ymgorffori egwyddorion Hawliau Dynol yn ei arferion Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a nod ei bolisi ar Urddas yn y Gweithle yw sicrhau bod hawliau'r holl gyflogeion yn cael eu parchu.

Datblygiadau yn y dyfodol

Mae rôl CCAUC yn newid wrth i fwy o'n cyllid gael ei ddefnyddio i gynnal ffioedd dysgu dros y blynyddoedd nesaf. 2013-14 yw'r ail flwyddyn ariannol (a'r flwyddyn lawn gyntaf) yn y trawsnewid hwn a fydd yn cael ei weithredu'n llawn yn 2015-16. Bydd hyn yn parhau i leihau gweddill y cyllid sydd ar gael inni ar gyfer blaenoriaethau addysg uwch craidd, a bydd rhaid defnyddio'r cyllid hwn mewn ffordd fwy strategol i gynnal y blaenoriaethau hyn. Disgwylir hefyd y bydd lefelau cyllido yn parhau i ddod dan bwysau fel rhan o adolygiadau gwariant parhaus ar lefel cenedlaethol ac ar lefel y DU a all arwain at ostyngiadau pellach yn y blynyddoedd sydd i ddod.

Mae ein swyddogaeth fel rheoleiddiwr yn debygol o gynyddu wrth inni gael pwerau newydd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru drwy'r Bil Addysg Uwch a fydd yn dod i rym erbyn diwedd 2014-15. O ganlyniad, rhagwelir y bydd gofyn inni fonitro darpariaeth addysg uwch prifysgolion a darparwyr preifat.

Mae'r cynigion ar gyfer Bil Cenedlaethau'r Dyfodol yn dal i fod yn aneglur, fodd bynnag, rydym yn rhagweld o ganlyniad i hyn y bydd gofyn i CCAUC, ond nid y sector AU, ddangos sut mae'n gwneud penderfyniadau sy'n ategu cyflawni nodau diffiniedig o ran datblygu cynaliadwy lefel uchel, a bydd gofyn iddo adrodd ar gynnydd drwy brosesau adrodd blynyddol yn dechrau yn 2016.

Aelodau'r Cyngor

Bu'r aelodau canlynol yn gwasanaethu ar y Cyngor yn ystod y flwyddyn adrodd:

Cadeirydd

Mr Roger Thomas OBE (*Tymor cyntaf: 5 Mai 2008 hyd 4 Mai 2011; Ail dymor: 5 Mai 2011 hyd 4 Mai 2014*). *Cyn Gadeirydd y Llywodraethwyr a Dirprwy Ganghellor Prifysgol Morgannwg.*

DS Penodwyd Mr David Allen OBE (gweler 'Aelodau Eraill o'r Cyngor' isod) yn Gadeirydd yn dechrau 5 Mai 2014 am dymor o dair blynedd hyd 4 Mai 2017.

Prif Weithredwr (a Swyddog Cyfrifyddu)

Dr David Blaney

Aelodau eraill o'r Cyngor:

Enw	Hanes personol	Tymor yn y swydd	Aelodaeth o bwllgorau
Mr David Allen OBE	Partner (rhan amser), Perrett Laver. Cyn Gofrestrydd a Dirprwy Brif Weithredwr Prifysgol Caerwysg	Tymor cyntaf: 01/12/08 i 30/11/11 Ail dymor: 01/12/11 i 30/11/14	Pwyllgor Datblygu Strategol
Y Fonesig Alexandra (Sandra) Burslem	Cyn Is-Ganghellor, Prifysgol Fetropolitan Manceinion	Tymor cyntaf: 01/12/08 i 30/11/11 Ail dymor: 01/12/11 i 30/11/14	Pwyllgor Datblygu Strategol (Cadeirydd) Pwyllgor Adnoddau Dynol Pwyllgor Cydnabyddiaeth
Mrs Bethan Guilfoyle CBE	Cyn Bennaeth, Ysgol Gyfun Treorci	Tymor cyntaf: 01/04/10 i 31/03/13 Ail dymor: 01/04/13 i 31/03/16	Pwyllgor Profiad Myfyrwyr, Addysgu ac Ansawdd
Mr David Mason	Cyn Brifathro/Prif Weithredwr, Coleg Gwent	Tymor cyntaf: 01/04/10 i 31/03/13 Ail dymor: 01/04/13 i 31/03/16	Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg (Cadeirydd)
Yr Athro Katherine (Leni) Oglesby OBE	Cyn Uwch Ddirprwy Is-Ganghellor, Prifysgol Teesside	Tymor cyntaf: 01/12/08 i 30/11/11 Ail dymor: 01/12/11 i 30/11/14	Pwyllgor Profiad Myfyrwyr, Addysgu ac Ansawdd (Cadeirydd)
Yr Athro Mark Smith	Is-Ganghellor, Prifysgol Caerhirfryn	Tymor cyntaf: 01/01/13 i 31/12/15	Pwyllgor Ymchwil, Arloesi ac Ymgysylltu
Yr Athro Stephen Tomlinson CBE	Cyn Is-Ganghellor, Coleg Meddygaeth Prifysgol Cymru	Tymor cyntaf: 01/01/13 i 31/12/15	Pwyllgor Ymchwil, Arloesi ac Ymgysylltu
Yr Athro Robin Williams CBE	Cyn Is-Ganghellor, Prifysgol Abertawe	Tymor cyntaf: 01/08/09 i 31/07/12 Ail Dymor: 01/08/12 i 31/07/15	Pwyllgor Ymchwil, Arloesi ac Ymgysylltu (Cadeirydd) Pwyllgor Datblygu Strategol

Enw	Hanes personol	Tymor yn y swydd	Aelodaeth o bwyllgorau
Mr Ewart Wooldridge CBE	Cyn Brif Weithredwr, Sefydliad Arweinyddiaeth ar gyfer Addysg Uwch	Tymor cyntaf: 01/01/13 i 31/12/15	Pwyllgor Adnoddau Dynol (Cadeirydd) Pwyllgor Cydnabyddiaeth Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

Mae Cadeirydd y Cyngor hefyd yn cadeirio'r Pwyllgor Penodiadau (mae Cadeiryddion y pwyllgorau eraill a restrir uchod ymhlith ei aelodau) a'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth.

Mae'r Prif Weithredwr yn aelod o'r Pwyllgor Datblygu Strategol.

Penodwyd aswyr gan Weinidogion Cymru

Mr Neil Surman

Pennaeth yr Is-adran Addysg Uwch, Adran Addysg a Sgiliau, Llywodraeth Cymru

Cofrestr o fuddiannau

Mae manylion am fuddiannau datganedig aelodau'r Cyngor ar gael ar wefan CCAUC (www.ccauc.ac.uk) yn: Hafan > Y Cyngor a Phwyllgorau > Aelodau'r Cyngor.

Aelodaeth o'r bwrdd rheoli

Mae Bwrdd Rheoli CCAUC yn gyfrifol am reolaeth a gweithrediad CCAUC.

Ar gyfer y cyfnod o 1 Ebrill i 31 Gorffennaf 2013, roedd yn cynnwys y Prif Weithredwr, y Pennaeth Sgiliau, Addysg a Chyllid, y Pennaeth Ymgysylltiad Sefydliadol a Phennaeth Gwasanaethau Corfforaethol. O 1 Awst, yn dilyn penodi dau gyfarwyddwr, roedd yn cynnwys y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Datblygiad Strategol, Cyfarwyddwr Ymgysylltiad Sefydliadol a Phennaeth Gwasanaethau Corfforaethol.

Rhwymedigaethau pensiwn

Datgelir manylion am gostau pensiynau, cynlluniau pensiwn a rhwymedigaethau pensiwn o fewn yr Adroddiad Cydnabyddiaeth, y polisi cyfrifyddu 1(e) ac yn nodyn 14 y cyfrifon.

Absenoldeb oherwydd salwch

Caiff absenoldeb oherwydd salwch ei fonitro gan CCAUC. Ar 2.17% o amser gweithio posibl a gollwyd ar gyfer 2013-14 (2012-13 – 1.31%), mae hyn yn isel o gymharu â rhan fwyaf y sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus (amser gweithio cyfartalog a gollwyd ym mhob Adroddiad Arolwg Blynnyddol Rheoli Absenoldeb CIPD 2013 – Gwasanaethau Cyhoeddus 4.0%; Addysg 4.5%; Llywodraeth Ganolog 3.8%; Llywodraeth Leol 3.9%; Gwasanaethau Cyhoeddus Eraill 3.0%; Maint gweithlu'r sector cyhoeddus 1-49, 4.1%; a'r DU (dros yr holl sectorau – 4.4%).

Digwyddiadau sy'n ymwneud â data personol

Ni adroddwyd unrhyw ddigwyddiadau a oedd yn ymwneud â data personol yn ystod y flwyddyn.

Archwiliad

Mae cyfrifon y Cyngor yn cael eu harchwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru fel sy'n ofynnol gan baragraff 16(1) o Atodlen 1 Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992. Dangosir ffioedd archwilio allanol sy'n ymwneud â hyn a gwaith archwilio arall yn Nodyn 6 y cyfrifon hyn.

Hyd y gŵyr y Swyddog Cyfrifyddu, nid oes gwybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr CCAUC yn ymwybodol ohoni; mae'r Swyddog Cyfrifyddu wedi cymryd yr holl gamau y dylai fod wedi eu cymryd er mwyn gwneud ei hun yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i gadarnhau bod archwilwyr CCAUC yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Adroddiad cynaliadwyedd

Prif swyddogaeth CCAUC yw datblygu a chynnal addysg uwch o safon ryngwladol yng Nghymru, er lles unigolion, cymdeithas ac economi Cymru a thu hwnt. Mae'r 46 o staff ynghyd ag aelodau'r Cyngor sy'n rhan o'r sefydliad yn gweithredu o un adeilad swyddfa a rennir yng Ngogledd Caerdydd. Mae ein prif effaith uniongyrchol ar yr amgylchedd yn deillio o'n defnydd o adeilad y swyddfa a theithio ar gyfer busnes.

Mae CCAUC wedi bod yn cofnodi ei berfformiad amgylcheddol mewn perthynas â theithio ar gyfer busnes ers 2007-08. Mae hyn wedi cael ei ategu gan ddatblygu system reoli amgylcheddol sydd â Gwobr y Ddraig Werdd Lefel 2 a chan ddefnyddio Fframwaith Asesu Caffael Cynaliadwy Llywodraeth Cymru. Rydym bellach wedi estyn y casgliad o ddata amgylcheddol i gynnwys defnydd o drydan yn yr adeilad a'r effeithiau carbon cysylltiedig. Rydym wedi bod yn llwyddiannus yn annog y landlord i osod golau ynni isel a rheolyddion golau yn rhan graidd yr adeilad, a chanlyniad hyn yw arbedion o ran ynni a gwaith cynnal a chadw.

Mae Tabl 1 isod yn cymharu CO₂ a milltiroedd a gofnodwyd o ran teithio ar gyfer busnes rhwng 2011-12 a 2013-14. O hyn gallwn weld bod teithio ar gyfer busnes wedi cynyddu'n gymedrol yn 2013-14 am y tro cyntaf mewn chwe blynedd. Mae'r cynnydd hwn o ganlyniad i gynnydd o tua 6,000 o filltiroedd o ran pellter teithio gan staff ond fe'i gwrthbwsir gan leihad o bron 3,000 o filltiroedd o ran pellter teithio gan staff ar reilffyrdd. Mae'r newid ym milltiroedd ar gyfer busnes yn cynrychioli cynnydd o lai na 5% a rhaid gweld hyn yng nghydstun lleihad o 60% mewn teithio ar gyfer busnes ers 2008-09. Mae fideo-gynadledda a thelegynadledda yn dal i gael ei ddefnyddio ac yn 2013-14 mae hyn wedi cynhyrchu arbedion o 15,678 o filltiroedd neu 23.87% o gyfanswm milltiroedd ar gyfer busnes.

Tabl 1

	2011-12		2012-13		2013-14	
	Milltiroedd	CO ₂ KG	Milltiroedd	CO ₂ KG	Milltiroedd	CO ₂ KG
Cyfanswm	100,200	22,357	62,866	12,098	65,676	13,993

Mae CCAUC yn cofnodi ac yn monitro faint o bapur mae'n ei brynu, yn ogystal â sicrhau bod llungopiwyd ac argraffwyr yn argraffu'n ddwyochrog yn awtomatig. Byddwn hefyd yn

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru

parhau i ddarparu system o gasglu sbwriel ar wahân. O ran rheoli gwastraff, rydym yn cynnal cofnodion sylfaenol er mwyn monitro ein defnydd o bapur, nifer y bagiau a gaiff eu rhwygo a gwarediadau papur gwastraff eraill. Mae darparu daliedyddion ailgylchu yn annog staff i ailgylchu gwastraff yn y swyddfa, a chaiff plastig, cardfwrdd, papur a batris eu cadw ar wahân. Byddwn yn parhau i annog ailgylchu pan fo'n ymarferol.

Dangosir defnydd o drydan yn Nhabl 2 isod. Hon ydy'r flwyddyn gyntaf rydym wedi gallu cynhyrchu ffigurau cywir ar gyfer defnydd, a byddwn yn ceisio meincnodi'r ffigurau hyn yn y dyfodol. Byddwn yn parhau i fonitro ein defnydd o drydan a thrwy ein Cynllun Gwella Amgylcheddol a Chaffael byddwn yn edrych am gyfleoedd i leihau hwn lle bynnag y bo modd mewn ffordd gost-effeithiol.

Tabl 2

2013-14 Defnydd o Drydan	Cyflenwad y landlord (Cilowat-orïau)	Cyflenwad y tenant (Cilowat-orïau)	Cyfanswm (Cilowat-orïau)	Allyriadau Carbon* (Cilogramau)
Llawr Daear	7,780	58,908	66,688	
Llawr Cyntaf	4,719	56,547	61,266	
Ail Lawr	5,371	121,049	126,420	
Cyfanswm	17,870	236,504	254,374	113,318

* Cafodd hyn ei gyfrifo gan ddefnyddio ffigurau Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ar gyfer 2013 <http://www.ukconversionfactorscarbonsmart.co.uk/Filter.aspx?year=27>

Adroddiad taliad cydnabyddiaeth

Polisi taliad cydnabyddiaeth

Caiff taliad cydnabyddiaeth y Cadeirydd, Aelodau'r Cyngor a'r Prif Weithredwr ei phennu gan Lywodraeth Cymru. Rheolir taliad cydnabyddiaeth y Cadeirydd ac Aelodau'r Cyngor gan gynllun a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru ar 1 Ebrill 2004 ar gyfer Talu Cadeiryddion, Aelodau Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru a Chyrff y GIG.

Caiff taliad cydnabyddiaeth y Prif Weithredwr ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ac nid yw'n agored i dâl ar sail perfformiad.

Pennir taliad cydnabyddiaeth y cyfarwyddwyr yn unol â'r system gyflogau a graddio o fewn CCAUC, sy'n berthnasol i'r holl benodiadau staff. Caiff lefelau taliad cydnabyddiaeth cyffredinol CCAUC a'i gylch cyflog blynyddol, sy'n berthnasol ar gyfer yr holl staff gan gynnwys y cyfarwyddwyr, eu cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

Pwyllgor taliad cydnabyddiaeth

Mae gan CCAUC Bwyllgor Cydnabyddiaeth sy'n gyfrifol am adolygu perfformiad y Prif Weithredwr a'r cyfarwyddwyr yn flynyddol. Mae gan y pwyllgor, sy'n cynnwys o leiaf dau aelod ar unrhyw adeg, a'r ddau ohonynt yn Aelodau'r Cyngor, awdurdod a ddirprwywyd gan y Cyngor i ystyried materion sy'n effeithio ar dâl y Prif Weithredwr yn unol â chanllawiau a bennir gan Lywodraeth Cymru.

Cydnabyddiaeth (gan gynnwys cyflog) a hawliau pensiwn

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru

Mae'r adrannau canlynol yn rhoi manylion am gydnabyddiaeth a buddiannau pensiwn uwch reolwyr CCAUC.

Cydnabyddiaeth uwch gyflogeion (cyflog a phensiynau)*

Ffigur sengl ar gyfer cyfanswm y gydnabyddiaeth

Enw a swydd	2013-14 Cyflog	2012-13 Cyflog	2012-13 Taliadau bonws	2013-14 Buddian nau pensiwn	2012-13 Buddian nau pensiwn	Cyfans wm 2013-14	Cyfans wm 2012-13
	£'000	£'000	£'000	£	£	£'000	£'000
Roger Thomas (Cadeirydd)	20-25	20-25	Dd/B	Dd/B	Dd/B	20-25	20-25
Dr David Blaney (Prif Weithredwr)	115-120	105-110	Dd/B	97,859	79,024	215-220	185-190
Yr Athro Philip Gummett (Cyn Brif Weithredwr) - wedi ymddeol ar 26 Hydref 2012	Dd/B	60-65	10-15	Dd/B	11,060	Dd/B	85-90
Celia Hunt (Cyfarwyddwr Datblygiad Strategol) – penodwyd 1 Awst 2013	45-50	Dd/B	Dd/B	41,180	Dd/B	90-95	Dd/B
Bethan Owen (Cyfarwyddwr Ymgysylltiad Sefydliadol) – penodwyd 1 Awst 2013	45-50	Dd/B	Dd/B	8,337	Dd/B	55-60	Dd/B
Richard Hirst (Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Chorfforaethol) - wedi ymddeol 31 Mawrth 2013	Dd/B	95-100	Dd/B	Dd/B	63,269	Dd/B	160-165

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru

	2013-14 £'000	2012-13 £'000
Band yr aelod o staff sy'n cael ei dalu mwyaf (cyfanswm cydnabyddiaeth**)	115-120	105-110
	2013-14 £	2012-13 £
Canolrif cyfanswm cydnabyddiaeth**	34,388	41,517
Cymhareb	3.4	2.6

DS Nid oedd buddion nad ydynt yn ariannol yn 2013-14 nac yn 2012-13 ar gyfer yr uchod.

Nid oedd taliadau bonws yn 2013-14 ar gyfer yr uchod.

Mae'r cyflogau a ddangosir ar gyfer Celia Hunt a Bethan Owen ar gyfer y cyfnod 1 Awst 2013 i 31 Mawrth 2014. Y cyflog cyfwerth mewn blwyddyn lawn ar gyfer pob un yw £75,000.

Gadawodd Richard Hirst dan amodau Ymadael Gwirfoddol ar 31 Mawrth 2013. Yn ogystal â'r gydnabyddiaeth uchod, derbyniodd iawndal o £135-140,000.

Roedd y 'taliad bonws' uchod ar gyfer yr Athro Gummert yn daliad ar wahân a oedd yn ymwneud â'r flwyddyn perfformiad blaenorol yn 2011-12, ynghyd â swm a oedd yn daladwy ar gyfer y flwyddyn perfformiad yn 2012-13 hyd at ddyddiad ei ymddeoliad.

Cyfrifir y ffigurau 'Buddiannau pensiwn' uchod gan weinyddwyr pensiynau CCAUC at ddibenion datgelu.

Mae'n ofynnol i gyrff sy'n adrodd ddatgelu'r berthynas rhwng cydnabyddiaeth yr uwch gyflogai sydd â'r tâl uchaf yn eu sefydliad, a chanolrif y gydnabyddiaeth ymhlith staff y sefydliad. Gwnaeth yr uwch gyflogai â'r tâl uchaf yn CCAUC dderbyn cydnabyddiaeth a oedd wedi'i fandio o £115,000 i £120,000 yn 2013-14 (2012-13 - £105,000 i £110,000). Roedd hyn 3.4 gwaith (2012-13 - 2.6) cyflog canolrifol yr holl staff, sef £34,388 (2012-13 - £41,517).

**At ddibenion cyfrifo'r 'aelod o staff â'r tâl uchaf' a 'chanolrif cyfanswm cydnabyddiaeth' uchod, mae 'cyfanswm cydnabyddiaeth' yn cynnwys costau cyflogau yn unig. Nid yw hyn yn cynnwys cyfraniadau pensiwn cyflogaion na'r 'buddiannau pensiwn' a ddangosir uchod.

Gellir priodoli cynnydd yn y gymhareb yn bennaf i ymadawiad aelodau o staff drwy'r cynllun ymadael gwirfoddol yn 2012-13. Uwch aelodau o staff oedd rhain yn bennaf, ac roeddent uwchlaw'r lefel cyflog ganolrifol. Mae hyn wedi lleihau'r lefel cydnabyddiaeth ganolrifol yn sylweddol yn 2013-14 o'r lefel flaenorol o £41,517. Oherwydd natur y gwaith a wneir yn CCAUC, mae gennym gyfradd uchel o staff ar lefel swyddi canol, a'r canlyniad ydy'r canolrif a ddangosir uchod.

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru

Cyfanswm cyflog Roger Thomas ar gyfer y flwyddyn 2013-14 oedd £24,264 (2012-13 - £24,264). Gwnaeth ildio'i hawl am gyflog a phenderfynodd iddo gael ei dalu i elusen gofrestredig.

Pensiynau uwch gyflogeion*

Enw	Swydd	Pensiwn cronodig ar oedran pensiwn ar 31/03/14 a chyfandaliad cysylltiedig £'000	Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn a chyfandaliad cysylltiedig ar oedran pensiwn £'000	CETV ar 31/03/14 £'000	CETV ar 31/03/13 £'000	Cynnydd gwirioneddol mewn CETV £'000
Roger Thomas	Cadeirydd	Dd/B	Dd/B	Dd/B	Dd/B	Dd/B
Dr David Blaney	Prif Weithredwr	Pensiwn 50-55	Pensiwn 5 – 7.5	787	669	70
Celia Hunt	Cyfarwyddwr Datblygiad Strategol (o 1 Awst 2013)	15-20 pensiwn a chyfandaliad 50-55	0 - 2.5 pensiwn a chyfandaliad 5 - 7.5	338	287	35
Bethan Owen	Cyfarwyddwr Ymgysylltiad Sefydliadol (o 1 Awst 2013)	pensiwn 10-15	pensiwn 0 – 2.5	192	170	3

Y ffigurau Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV) yng ngholofn 'CETV ar 31/03/13' uchod ar gyfer Celia Hunt a Bethan Owen yw eu balansau perthnasol ar 31 Gorffennaf 2013, diwrnod cyn iddynt gael eu penodi'n gyfarwyddwyr.

Datgeliadau cyflog a phensiwn*

Roedd Dr David Blaney a Bethan Owen yn aelodau o'r cynllun buddiannau diffiniedig Premiwm yn ystod y flwyddyn, tra roedd Celia Hunt yn aelod o'r cynllun buddiannau diffiniedig Clasurol, ac roedd y ddau gynllun yn rhan o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Mae buddiannau'r cynllun Clasurol yn cynnwys cyfandaliad awtomatig wrth ymddeol, ond nid yw'r cynllun Premiwm yn cynnwys hyn (gweler 'pensiynau' isod).

Mae gan Dr David Blaney, y Prif Weithredwr, contract parhaol sy'n amodi cyfnod rhybudd o dri mis. Ac eithrio'r posibilrwydd o gael tâl yn lle rhoi rhybudd, nid oes unrhyw ddarpariaethau yn y contract sy'n ymwneud ag iawndal am derfynu cyflogaeth yn gynnar.

Mae gan gyfarwyddwyr contractau parhaol, ac mae angen cyfnod rhybudd o dri mis a chanddynt yr un amodau â'r Prif Weithredwr o ran terfynu contract.

Nid yw'r Cadeirydd nac Aelodau'r Cyngor (ac eithrio'r Prif Weithredwr) yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ac nid ydynt yn derbyn unrhyw fuddiannau pensiwn a delir gan CCAUC. Mae Aelodau'r Cyngor (ac eithrio'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr) yn derbyn cyflog nad yw'n bensiynadwy o £5,076 y flwyddyn.

Mae'r holl gyflogau sydd ar gael yn gyflogau gros yn unig, oherwydd nid oedd unrhyw Aelodau Cyngor na staff uwch wedi derbyn cydnabyddiaeth neu fuddiannau eraill nad ydynt yn ariannol, ac eithrio'r hyn a ddatgelir isod.

* Mae'r wybodaeth hon yn agored i archwiliad

Pensiynau

Darperir buddiannau pensiwn drwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 30 Gorffennaf 2007, gall gweision sifil fod mewn un o bedwar cynllun buddiannau diffiniedig; naill ai cynllun cyflog terfynol (clasurol, premiwm neu glasurol a mwy); neu gynllun gyrfya gyfan (nuvos). Nid yw'r trefniadau statudol hyn yn cael eu hariannu, ac mae costau buddiannau'n cael eu talu gan Senedd y DU bob blwyddyn. Ychwanegir at bensiynau clasurol, premiwm, clasurol a mwy, a nuvos yn flynyddol yn unol â deddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Gall aelodau a ymunodd o fis Hydref 2002 ddewis rhwng naill ai'r trefniant buddiannau diffiniedig priodol neu bensiwn cyfranddeiliaid 'a brynir ag arian' gyda chyfraniad gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth).

Mae cyfraniadau gan gyflogeion yn gysylltiedig â chyflog ac yn amrywio rhwng 1.5% a 6.25% o enillion pensiynadwy ar gyfer clasurol a rhwng 3.5% ac 8.25% ar gyfer premiwm, clasurol a mwy, a nuvos. Bydd cynnydd o ran cyfraniadau gan gyflogeion mewn grym o 1 Ebrill 2014. Mae buddiannau yn y cynllun clasurol yn cronni ar gyfradd o 1/80 o enillion terfynol pensiynadwy ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, telir cyfandaliad sy'n gyfwerth â thair blynedd o bensiwn cychwynnol wrth ymddeol. Ar gyfer premiwm, mae buddiannau'n cronni ar gyfradd 1/60 o enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer bob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i'r cynllun clasurol, nid oes cyfandaliad awtomatig. Yn ei hanfod, mae clasurol a mwy yn groesiad o'r buddiannau ar gyfer gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 wedi eu cyfrifo fel yn y cynllun clasurol ar y cyfan, a chyfrifir y buddiannau ar gyfer gwasanaeth ar ôl mis Hydref 2002 fel yn y cynllun premiwm. Yn nuvos mae aelod yn cronni pensiwn yn seiliedig ar eu henillion pensiynadwy yn ystod cyfnod eu haelodaeth yn y cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth) mae cyfrif pensiwn a enillwyd yr aelod yn cael ei gredu â 2.3% o'u henillion pensiynadwy yn y flwyddyn cynllun honno, ac mae'r pensiwn a gronnwyd yn cael ei uwchraddio'n unol â deddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Ym mhob achos gall aelodau ddewis i gyfnewid eu pensiwn am gyfandaliad hyd at yr uchafswm a bennwyd gan Ddeddf Cyllid 2004.

Mae'r cyfrif pensiwn partneriaeth yn drefniant pensiwn cyfranddeiliaid. Mae'r cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol o rhwng 3% a 12.5% (yn ddibynnol ar oedran yr aelod) i gynnyrch pensiwn cyfranddeiliaid a ddewisir gan y cyflogai o banel o dri darparwr. Nid oes yn rhaid i'r cyflogai gyfrannu, ond pan fydd yn gwneud cyfraniadau bydd y cyflogwr yn gwneud cyfraniad cyfatebol hyd at uchafswm o 3% o'r cyflog pensiynadwy (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.8% ychwanegol o gyflog pensiynadwy er mwyn talu cost sicrwydd yswiriant buddiannau risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth yn ystod gwasanaeth ac afiechyd ar ôl ymddeol).

Y pensiwn cronol a ddyfynnwyd yw'r pensiwn y mae hawl i'r aelod ei dderbyn pan fydd yn cyrraedd oedran pensiwn neu'n syth ar ôl iddo orffen bod yn aelod o'r cynllun os ydynt wedi cyrraedd yr oedran pensiwn neu dros yr oedran pensiwn. Yr oedran pensiwn yw 60

ar gyfer aelodau'r cynlluniau clasurol, premiwm a chlasurol a mwy, a 65 ar gyfer aelodau nuvos.

Mae'n bosibl cael rhagor o wybodaeth am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar wefan <http://www.civilservice.gov.uk/pensions>

Gwerthoedd trosglwyddo sy'n gyfwerth ag arian parod

Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth cyfalafol asesedig actiwari y buddion cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol. Y buddion a brisir yw'r buddion a gronnwyd gan yr aelod ac unrhyw bensiwn sy'n daladwy i briod amodol o'r cynllun. Taliad yw CETV a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn i sicrhau buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fo'r aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion a gronnwyd yn y cynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn gysylltiedig â'r buddion y mae'r unigolyn wedi eu cronni o ganlyniad i gyfanswm eu haelodaeth o'r cynllun pensiwn, nid eu gwasanaeth mewn swydd uwch y mae datgelu'n berthnasol iddi yn unig.

Mae'r ffigurau'n cynnwys gwerth unrhyw fuddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r aelod wedi eu trosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddion pensiwn ychwanegol a gronnir i'r aelod o ganlyniad i brynu buddion pensiwn ychwanegol ar eu cost eu hun. Cyfrifir CETVs yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygiad) 2008 ac nid ydynt yn ystyried unrhyw leihad gwirioneddol neu bosibl i fuddiannau o ganlyniad i Dreth Lwfans Oes a allai fod yn ddyledus wrth gymryd buddiannau pensiwn.

Cynnydd gwirioneddol yn CETV

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV y telir amdano gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd yn y pensiwn a gronnwyd yn sgil chwyddiant, cyfraniadau a dalwyd gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio'r farchnad gyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

Pensiynau cyffelyb (BBA)

Mae trefniant pensiwn BBA yn rhoi hawl i'r derbynydd gael buddiannau sy'n debyg i'r rhai a ddarperir gan gynllun clasurol y PCSPS a ddisgrifiwyd uchod, ac mae'n gosod rhwymedigaeth ar CCAUC a'r aelod i wneud cyfraniadau yn unol â'r PCSPS. Mae CCAUC yn gyfrifol am ariannu buddiannau pensiwn yn y dyfodol ac am gynnal cyfraniadau pensiwn. Mae gan yr Athro Roger Williams, cyn Gadeirydd y Cyngor, bensiwn BBA.

Pecynnau ymadael

Yn ystod 2011-12 rhoddwyd cynllun ymadael gwirfoddol ar waith gan CCAUC oherwydd gofynion i leihau costau gweithredu. Gwnaeth yr holl ymadawiadau ddigwydd yn ystod 2012-13. Cyfrifwyd am gostau iawndal naw allan o'r deg aelod o staff a oedd yn ymadael yn 2011-12, a'r gweddill yn 2012-13.

Band cost y pecyn ymadael	Nifer yr ymadawiadau y cyfrifwyd amdanynt yn 2013-14	Nifer yr ymadawiadau y cyfrifwyd amdanynt yn 2012-13
<£10,000	-	-
£10,000 - £25,000	-	-
£25,000 - £50,000	-	-
£50,000 - £100,000	-	1
£100,000 - £150,000	-	-
Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael	-	1
Cyfanswm y costau	-	£64,695

Roedd costau iawndaliadau ymadawiadau gwirfoddol yn daladwy yn unol â darpariaethau Cynllun Iawndaliadau'r Gwasanaeth Sifil, sef cynllun statudol a wnaed o dan Ddeddf Blwydd-daliadau 1972.

Dr David Blaney
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu
8 Gorffennaf 2014

Datganiad o gyfrifoldebau CCAUC a'r Prif Weithredwr

O dan baragraff 16(2) o atodlen 1 i'r Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 mae Gweinidogion Cymru, gyda chaniatâd y Trysorlys, wedi cyfarwyddo Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru i baratoi datganiad o gyfrifon ar gyfer bob blwyddyn ariannol, ar ffurf ac ar sail yr hyn a nodwyd yn y Cyfarwyddyd Cyfrifon. Mae'r cyfrifon yn cael eu paratoi ar sail cronïadau a rhaid iddynt roi darlun clir a theg o sefyllfa CCAUC ac o'i incwm a gwariant, ennillion a cholledion cydnabyddedig a llifau arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, rhaid i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion *Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth* ac yn benodol i:

- gydymffurfio â'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a gweithredu polisiau cyfrifyddu priodol yn gyson.
- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol;
- datgan p'un a yw safonau cyfrifyddu cymwys fel y'u hamlinellir yn *Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth* wedi cael eu rhoi ar waith, a datgelu ac esbonio unrhyw ymadawiadau o bwys yn y cyfrifon;
- paratoi'r cyfrifon ar sail busnes hyfyw.

Mae'r Prif Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer Gweinidogion Cymru wedi dynodi'r Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfrifo Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. Amlinellir cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys cyfrifoldeb am briodoldeb a chysondeb arian cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n atebol amdano, yn ogystal â chadw cofnodion cywir ac am ddiogelu asedau CCAUC, ym Memorandwm Swyddogion Cyfrifyddu a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Datganiad Llywodraethu CCAUC 2013-14

Cwmpas cyfrifoldeb

Fel Swyddog Cyfrifyddu CCAUC, rydw i'n atebol i Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru fel ei Swyddog Cyfrifyddu at ddibenion cyflawni fy nghyfrifoldeb i gynnal systemau llywodraethu, rheoli risg, a rheolaeth fewnol gadarn. Mae'r systemau hyn yn ategu datblygu ein polisïau a'n hamcanion strategol, tra'n diogelu'r arian cyhoeddus ac asedau'r Cyngor yr ydw i'n bersonol gyfrifol amdanynt, yn unol â'r cyfrifoldebau a neilltuwyd imi yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru *Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru*. Rydw i hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod yr arian a'r asedau a neilltuwyd i CCAUC yn cael eu defnyddio mewn ffordd gynnil, effeithlon ac effeithiol. Rydw i hefyd yn cydnabod fy nghyfrifoldebau o ran y cyllid a ddarparwyd i CCAUC sy'n cael ei ddyrannu i sefydliadau addysg bellach ac eraill ar gyfer addysg, ymchwil a gweithgareddau cysylltiedig.

Datblygiadau yn y flwyddyn

Ym mlwyddyn academiaidd 2012/13 cyflwynodd Llywodraeth Cymru drefniadau ffioedd dysgu newydd ar gyfer addysg uwch yng Nghymru sydd wedi achosi newidiadau sylweddol yn y ffordd mae CCAUC yn ariannu sefydliadau. Bellach mae'n rhaid i CCAUC ddyrannu cyfran gynyddol o'i adnoddau fel cymorth grantiau ffioedd dysgu ar gyfer myfyrwyr sy'n huanu o Gymru a'r UE sy'n astudio cyrsiau israddedig llawn-amser (FTUG) a thystysgrifau addysg i raddedigion (TAR), a myfyrwyr sy'n huanu o Gymru sy'n astudio cyrsiau FTUG/TAG mewn sefydliadau yng ngweddill y DU. O ganlyniad, bu lleihad cymesurol yn nyraniadau grant uniongyrchol gan CCAUC i sefydliadau yng Nghymru.

Mae lefel y cymorth grantiau ar gyfer ffioedd dysgu y mae'n rhaid i CCAUC ei wneud bob blwyddyn yn dibynnu ar y galw. Mae gan CCAUC reolaeth gyfyngedig dros y taliadau hyn ar gyfer myfyrwyr sy'n huanu o Gymru a'r UE sy'n astudio yng Nghymru, ac nid oes reolaeth dros gyfanswm y taliadau hyn sy'n dilyn myfyrwyr sy'n huanu o Gymru i weddill y DU. Ni wyddys cyfanswm blynyddol y rhwymedigaeth ffioedd grantiau tan yn hwyr yn y flwyddyn academiaidd y mae'r dyraniad yn berthnasol iddi, fodd bynnag rydym yn amcangyfrif ar gyfer y flwyddyn academiaidd 2013/14 y bydd tua 42% o ddyraniadau cyllido cyffredinol CCAUC ar gyfer y flwyddyn yn cael eu defnyddio ar gyfer taliadau grantiau ffioedd dysgu FTUG/TAR i fyfyrwyr sy'n huanu o Gymru sy'n mynychu prifysgolion yng Nghymru a'r tu allan i Gymru, ynghyd â myfyrwyr sy'n huanu o'r UE sy'n astudio yng Nghymru. Gan ddefnyddio modelau presennol, rydym yn amcangyfrif y bydd hyn yn cynyddu i bron 60% o ddyraniadau cyllido cyffredinol CCAUC yn 2014/15. Caiff cyllid cymorth grantiau ffioedd dysgu myfyrwyr ei dalu gan CCAUC i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr. Yna, mae'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr yn gwneud taliadau i sefydliadau addysg uwch yn ôl nifer y myfyrwyr o Gymru sy'n gymwys.

Caiff gweddill grant CCAUC i sefydliadau addysg uwch yng Nghymru ei sefydlu o'r adnoddau sy'n weddill ar ôl i daliadau grantiau ffioedd amcangyfrifedig gael eu dyrannu. Mae'r cyllid hwn yn dal i gael ei ffocysu'n strategol er mwyn mynd i'r afael â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a Chyngor CCAUC. Fodd bynnag, mae'r lleihad ym malans y cyllid sydd ar gael yn cael effaith sylweddol ar drosoledd polisïau'r Cyngor, ac felly mae'n anoddach dod o hyd i ffyrdd o sicrhau bod meysydd blaenoriaeth allweddol yn cael eu cyflawni. Y mecanwaith allweddol sydd gennym ar waith ar hyn o bryd er mwyn gwneud hynny yw bod CCAUC wedi neilltuo cyfrifoldeb dros gymeradwyo cynlluniau ffioedd sefydliadau Cymru, sy'n amlinellu eu hymrwymiad i fuddsoddi cyfran resymol o'u hincwm o ffioedd dysgu sydd dros y gyfradd ffioedd sylfaenol o £4,000 ar fesurau i

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru

wella o ran sicrhau cyfle cyfartal a hyrwyddo addysg uwch. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod bod y newid mewn polisi i ffwrdd o grantiau sefydliadol CCAUC i system lle mae cyfran sylweddol o incwm sefydliadol yn dod o ffioedd dysgu myfyrwyr yn golygu bod angen deddfwriaeth newydd a system reoleiddio ddiwygiedig ar gyfer addysg uwch yng Nghymru. Gwnaeth gyhoeddi felly ei bwriad i gyflwyno Bil Addysg Uwch (Cymru) i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Fframwaith Llywodraethu

Mae CCAUC yn gyfrifol am weinyddu'r adnoddau a ddarperir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer addysg uwch. Rydym yn cydweithio â Llywodraeth Cymru er mwyn cyfrannu at bolisiau addysg uwch yng Nghymru, ac rydym yn cydweithio â phrifysgolion i'w helpu i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau polisi hyn.

Caiff Cyngor CCAUC ei benodi gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau yn unol â gofynion y Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992. Mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n aelod o'r Cyngor. Yn ystod y flwyddyn roedd 11 o aelodau ar y Cyngor. Oherwydd ymddeoliad Cadeirydd CCAUC ym mis Mai 2014, hysbysebodd Llywodraeth Cymru am Gadeirydd newydd ym mis Medi 2013.

Gwnaeth y Cyngor gwrdd ar chwe achlysur yn ystod blwyddyn ariannol 2013-14. Allan o 66 o gyfleoedd i aelodau fynychu yn ystod y flwyddyn, y cyfanswm o ran mynychu oedd 61.

Mae'r rhai sy'n mynychu cyfarfodydd y Cyngor yn cynnwys sylwedydd o Lywodraeth Cymru; Llywydd Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr (Cymru) fel sylwedydd; a sylwedyddion o Gyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr (CCAULI) a Chyngor Cyllido'r Alban. Yn yr un modd, mae gennym statws sylwedydd yng nghyfarfodydd Bwrdd CCAULI a Chyngor Cyllido'r Alban. Caiff y Cyngor ei ategu gan Archwiliadau a Sicrwydd Risg; Adnoddau Dynol; Cydnabyddiaeth; a Phwyllgorau Penodiadau, a chan dri phwyllgor cynghori strategol (Profiad Myfyrwyr, Dysgu ac Ansawdd; Ymchwil, Arloesi ac Ymgysylltu; a Datblygu Strategol) sy'n cwmpasu meysydd polisi addysg uwch sy'n bwysig i gylch gwaith CCAUC. Caiff cefndir a datganiad buddiannau aelodau'r Cyngor, a strwythur ac aelodaeth y pwyllgorau, ynghyd â gwybodaeth arall am lywodraethu corfforaethol, ei gyhoeddi ar wefan CCAUC. Caiff y Cyngor ei ategu gan bwyllgor ymgynghorol ledled y DU: Pwyllgor Ymgynghorol Addysg Gofal Iechyd y DU.

Mae gan y Cyngor Bolisi Cwynion sy'n seiliedig ar y Polisi Pryderon a Chwynion enghreifftiol a gynhyrchwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion ffurfiol yn erbyn CCAUC yn ystod 2013-14.

Mae'r Cyngor yn cynnal adolygiad effeithiolrwydd hunanasesu blynyddol o'i lywodraethu, sy'n cynnwys arfarniad o'r Cyngor, gan gynnwys perfformiad ei aelodau, gan y Cadeirydd drwy drafodaethau ag aelodau a thrwy gymharu trefniadau llywodraethu CCAUC â Chod Ymarfer Llywodraethu Corfforaethol y Cyngor Adrodd Ariannol. Yn ogystal â'r gweithgareddau hyn, yn 2013-14 gwnaeth y Cyngor gynnal adolygiad blynyddol o'i ddogfennau llywodraethu corfforaethol allweddol ac adolygu swyddogaethau a chylch gwaith ei Bwyllgor Datblygu Strategol, yn ogystal â chytuno ar fân newidiadau i gylchoedd gwaith pwyllgorau eraill. Yn gyffredinol roedd y Cyngor yn fodlon ar ei arferion effeithiolrwydd a llywodraethu, yn ogystal ag o ran ansawdd y wybodaeth a'r data a ddarperir drwy bapurau'r Cyngor a'r pwyllgorau. Mae'r Cyngor o'r farn bod ei brosesau'n dal i gydymffurfio â'r Cod Ymarfer Llywodraethu Corfforaethol cyn belled ag sy'n

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru

berthnasol i Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Yn dilyn adolygiad y llynedd o ffyrdd newydd o weithio, yn 2013-14 gwnaeth y Cyngor barhau i geisio canfod ffyrdd o ddefnyddio amser y Cyngor a'r pwyllgor yn well, gan gynnwys drwy gael ffocws sy'n fwy strategol ar gyfer busnes. Cytunodd y Cyngor i ystyried amseriad a chynnwys ei adolygiad effeithiolrwydd llywodraethu nesaf unwaith y penodir Cadeirydd newydd CCAUC, a phan mae mwy o eglurder ynglŷn â'r swyddogaeth newydd a disgwyliadau'r Cyngor o'r Bil AU (Cymru) terfynol.

Yn ystod y flwyddyn gwnaethom dderbyn llythyr gan y Gweinidog, yn dilyn gohebiaeth debyg a dderbyniwyd yn 2012-13, yn gofyn am adroddiad cynnydd gan CCAUC i'w gwblhau erbyn Mehefin 2014 ynglŷn â chynyddu nifer y menywod a grwpiau eraill heb gynrychiolaeth ddigonol mewn penodiadau cyhoeddus. I ddechrau, gwnaeth y Cyngor ystyried ei ymateb i'r Gweinidog yn ei gyfarfod yn Ionawr 2014. Yn 2013-14 y cydbwysedd rhwng y rhywiau ar Gyngor CCAUC oedd wyth o ddyinion (gan gynnwys y Cadeirydd) a thri aelod benywaidd o'r Cyngor. Llywodraeth Cymru sydd â'r cyfrifoldeb dros wneud penodiadau i Gyngor CCAUC.

Yn ystod y flwyddyn, gwnaeth y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg a'r Cyngor adolygu a darparu adborth ar y Ddogfen Fframwaith ddrafft a fydd yn disodli'r Datganiad Rheoli/Memorandwm Ariannol rhwng Llywodraeth Cymru a CCAUC.

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg wedi meincnodi ei waith yn erbyn rhestr gyfeirio'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar gyfer pwyllgorau archwilio, ac mae hon yn defnyddio meini prawf sy'n deillio o Lawlyfr Pwyllgorau Archwilio Trysorlys EM. Mae pum aelod, ac mae dau ohonynt (gan gynnwys y Cadeirydd) yn aelodau o Gyngor CCAUC. Mae'r Pwyllgor yn cwrdd dair gwaith y flwyddyn ac mae'r Prif Weithredwr; Pennaeth Archwilio Mewnol; cynrychiolwyr yr archwilwyr allanol, Swyddfa Archwilio Cymru; a staff CCAUC perthnasol yn mynychu cyfarfodydd. Cyflwynir cofnodion y Pwyllgor i'r Cyngor ar ôl pob cyfarfod, ac mae Cadeirydd y Pwyllgor yn adrodd unrhyw faterion nodedig i'r Cyngor. Mae cylch gwaith y Pwyllgor yn cynnwys CCAUC ei hun a gwaith sicrwydd CCAUC o fewn y sector AU. Mae'r Pwyllgor yn darparu adroddiad blynyddol i'r Cyngor, ac mae hwn yn cynnwys barn y Pwyllgor ynghylch llywodraethu, rheolaeth fewnol a rheoli risg. Yn ei adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd hunanasesiadau, cytunodd aelodau i nifer o newidiadau i drefniadau adrodd y Pwyllgor, ac i ddiweddarau rhestr gwirio adolygu hunanasesiadau'r Pwyllgor yn erbyn gofynion *Llawlyfr* diwygiedig Trysorlys EM.

Fel rhan o'n hymrwymiad i wella ein perfformiad, rydym yn awyddus i ddysgu am gyrf ff cyhoeddus cymaradwy eraill. Gan weithio gyda Chyngor Celfyddydau Cymru, ni oedd y cyntaf o'r Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru (WGSBs) i gynnal ymweliadau dwyffordd ar gyfer Cadeiryddion a chynrychiolwyr gweithrediaeth CCAUC, i fynychu cyfarfodydd Pwyllgorau Archwilio a Sicrhau Risg ei gilydd fel sylwedyddion. Rydym wedi trafod gyda Chyrff eraill a Noddir gan Lywodraeth Cymru ac mae gennym gynlluniau i drefnu mwy o ymweliadau dwyffordd yn y flwyddyn sydd i ddod.

Ni thynnwyd sylw at unrhyw broblemau mawr gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ar gyfer 2013-14, ac eithrio nodi rhai pryderon yn ymwneud â chynaliadwyedd ariannol sefydliadol.

Cynigiwyd yr opsiynau canlynol gan y Pennaeth Archwilio Mewnol i'r Prif Weithredwr a'r Cyngor:

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru

- Cynhaliwyd digon o waith archwilio mewnol i allu dod i gasgliad rhesymol o ran digonolrwydd ac effeithiolrwydd llywodraethu, rheoli risg a phrosesau rheoli mewnol y Cyngor.
- Yn gyffredinol, mae trefniadau llywodraethu, rheoli risg a rheoli mewnol CCAUC wedi bod yn ddigonol ac yn effeithiol yn ystod y flwyddyn a gall y Cyngor a'r Swyddog Cyfrifyddu ddibynnu arnynt i raddau rhesymol felly.
- Erys rhywfaint o risg o ran gwiriadau cymhwysedd grantiau ffioedd, ond ni nodwyd tystiolaeth o unrhyw dueddiadau anarferol mewn taliadau grantiau ffioedd yn y gwaith sicrwydd a gwblhawyd.

Mae'r Cyngor yn cyflawni ei gyfrifoldeb cyfreithiol o sicrhau bod sefydliadau a ariennir yn asesu ansawdd addysg drwy ei Bwyllgor Profiad Myfyrwyr, Addysgu ac Ansawdd (SETQC) a'i Is-grŵp Asesu a Gwella Ansawdd (QAESG). Caiff yr asesiad ei gyflawni'n bennaf gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd, sy'n darparu adroddiad blwyddyn academaidd yn flynyddol am ganlyniadau adolygiadau, ac mae hwn yn cael ei ystyried gan QAESG, SETQC a'r Cyngor. Mae'r adroddiad ar gyfer 2012/13 ar gael ar wefan y Cyngor. Yn ystod 2012/13 cynhaliodd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd un Adolygiad Sefydliadol, o Brifysgol Glyndŵr ym mis Mawrth 2013. Mae adolygiad yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd, sy'n cynnwys argymhellion a nodweddion a ystyrir yn arfer da, ar gael ar wefan yr Asiantaeth.

Yn ystod 2013-14 cynhaliodd yr Asiantaeth waith adolygu dilynol gyda Phrifysgol Aberystwyth a gweithiodd yn agos gyda Phrifysgol Cymru, gan gynnwys sefydlu adroddiad monitro blynyddol ar 'drefniadau ymadael' y Brifysgol.

Mae QAESG yn ystyried asesiadau a gynhelir mewn sefydliadau AU eraill gan gyrrff statudol a rheoleiddio proffesiynol, megis Estyn, yn ogystal â chanlyniadau Arolwg Cenedlaethol o Fyfirwyr y DU.

Rydym yn cydweithio gyda'r sector mewn partneriaeth â nifer o sefydliadau eraill er mwyn ein helpu i gyflawni ein hamcanion, gan gynnwys yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd, y Cydbwyllgor Systemau Gwybodaeth, yr Uned Herio Cydraddoldeb, y Sefydliad Arweinyddiaeth ar gyfer Addysg Uwch, a'r Academi Addysg Uwch. Mae'r sefydliadau partner hyn yn cynnig ffynonellau defnyddiol o gyngor a gwybodaeth i CCAUC sy'n ei alluogi i feincnodi perfformiad a gweithgareddau yng Nghymru yn erbyn gweddill y sector, ac mae'r trefniadau'n elwa o arbedion maint oherwydd bod gan y sefydliadau gylchoedd gwaith ledled y DU. Mae Cyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr (CCAULI), fel cyllidwr pennaf y DU, yn arwain y gwaith o oruchwylio'r cyrff hyn, a lle y bo'n briodol mae cytundebau atodol ar waith rhwng CCAUC a'r corff i ddarparu ar gyfer unrhyw ofynion sy'n benodol i Gymru. Rydym yn monitro'r hyn a gyflawnir gan y sefydliadau hyn ar lefel Cymru. Mae gan CCAULI gyfrifoldeb am oruchwylio'r Brifysgol Agored fel sefydliad, er bod CCAUC yn cydweithio'n uniongyrchol â'r Brifysgol Agored yng Nghymru ar yr hyn a ddarperir ganddo yng Nghymru.

Mae gennym femorandwm cyd-ddealltwriaeth gyda'r Comisiwn Elusennau sy'n amlinellu sut y byddwn yn cydweithio a rhannu gwybodaeth er mwyn cydgysylltu ein gweithgareddau rheoleiddio mewn perthynas â sefydliadau addysg uwch yng Nghymru.

Rydym yn rhyngweithio'n rheolaidd gyda'r Adran Addysg a Sgiliau, o dan amodau'r Datganiad Rheolaeth a'r Memorandwm Ariannol rhwng yr Adran a CCAUC. Mae'r Adran a CCAUC yn cael cyfarfod monitro chwarterol ar lefel y swyddogion, sy'n galluogi'r Adran i

fonitro cynnydd CCAUC yn erbyn ein cynllungweithredol a'n dangosyddion perfformiad allweddol, ac i fonitro'n gofrestr risgiau a'r camau yr ydym yn eu cymryd i leihau risg. Mae'r Cyngor yn derbyn adroddiad bob tymor ar gynnydd yn erbyn targedau ei Gynllun Gweithredol, ac adroddiad blynyddol ar gynnydd yn erbyn targedau ei Strategaeth Gorfforaethol.

Mae'r Gweinidog Addysg a Sgiliau yn cael cyfarfod chwarterol gyda'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr, sy'n ei alluogi i fonitro cynnydd CCAUC yn erbyn ein hamcanion strategol, ac yn cynnig cyfle i CCAUC gynghori'r Gweinidog.

Ymdrin â newid sefydliadol

Gadawodd deg aelod o staff yn 2012-13 o ganlyniad i gynllun ymadael gwirfoddol a oedd yn angenrheidiol oherwydd lleihad yn ein costau rhedeg, ac roedd hyn wedi arwain at ailstrwythuro'r sefydliad. Yn dilyn hyn, ailstrwythurwyd y sefydliad eto yn ystod 2013-14 er mwyn mynd i'r afael a'i anghenion diweddaraf. Cryfhawyd yr uwch reolwyr drwy benodi dau Gyfarwyddwr newydd, ac addaswyd y portffolios a'r strwythurau staffio yr oedd y Cyfarwyddwyr yn gyfrifol amdanynt eto, gan sicrhau bod yr adroddiadau uniongyrchol i Gyfarwyddwyr yn digwydd ar lefel pennaeth yr adran.

Erys lefel uchel o risg o ran ein gallu i weithredu'n effeithiol wrth inni addasu i lefelau staffio a strwythur newydd yng nghyd-destun y gofynion gweithredol cynyddol y disgwylir inni fynd i'r afael â hwy, ynghyd â'r posibilrwydd o bwysau ychwanegol o ran costau rhedeg yn y tymor byr i ganolig. Fel rhan o'r addasiad hwn, mae adolygiad cynhwysfawr o bolisiau a gweithdrefnau ar y gweill, a bydd hyn yn parhau drwy 2014-15 a thu hwnt. Yn ogystal, mae prosiect i ddatblygu defnydd o gyfleusterau TG symudol er mwyn lleihau'r papur a ddefnyddir yn mynd rhagddo'n dda, ac mae disgwyl iddo fod yn gwbl weithredol o ddechrau 2014-15.

Effeithiolrwydd y system rheoli mewnol

Fel Swyddog Cyfrifyddu, mae gen i gyfrifoldeb dros adolygu effeithiolrwydd y system rheoli mewnol. Fe'm cefnogir yn y broses hon gan gyngor gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg a chan aelodau eraill o'm tîm o uwch reolwyr. Caiff fy adolygiad ei lywio gan waith yr archwilydd mewnol a rheolwyr o fewn CCAUC sydd â chyfrifoldeb dros ddatblygu a chynnal y fframwaith rheoli mewnol, a chan sylwadau gan archwilwyr allanol yn eu llythyrau rheoli.

Mae system rheoli mewnol CCAUC yn darparu fframwaith sicrwydd ar gyfer rheoli risgiau sy'n ymwneud â'n rheolaethau gweithredol ac ariannol mewnol, a'n rheolaethau mewn perthynas â sefydliadau sy'n derbyn arian gennym. Am y rheswm hwn mae'n ofynnol i sefydliadau addysg uwch yng Nghymru a ariennir gan CCAUC gydymffurfio â memorandwm ariannol, sy'n ein helpu i ddiogelu atebolrwydd o ran defnyddio'r arian cyhoeddus a ddarperir iddynt mewn ffordd reolaidd a phriodol. Rydym yn ystyried ystod gynhwysfawr o ddychweliadau a ddarperir inni gan sefydliadau - gan gynnwys eu cyfrifon blynyddol, cynlluniau ffioedd a chynlluniau strategol - fel rhan o'n gwaith o sicrhau y caiff buddsoddiad cyhoeddus mewn sefydliadau ei warchod. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys ceisio cadarnhau bod yr arian cyhoeddus a ddarparwyd i sefydliadau wedi cael ei ddefnyddio at y diben y'u bwriadwyd.

Mae pob un o'r rheolaethau blynyddol allweddol hyn – y gofrestr risgiau, y datganiadau ariannol, adroddiad yr ymchwilydd allanol a'r sylwadau a wnaed am hwnnw, adroddiadau

archwilio mewnol, adolygiadau o risgiau sefydliadol ac adroddiadau sicrwydd – wedi cael eu hystyried gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg a chaiff adroddiadau eu hanfon at y Cyngor. Mae ein systemau rheoli wedi nodi rhai materion bach lle'r oedd angen camau gweithredu penodol i reoli'r risgiau a oedd yn gysylltiedig â hwy. Nid oedd unrhyw wendid sylweddol o ran ein dulliau rheoli mewnol yn 2013-14 y mae angen eu nodi fan hyn.

Dull o reoli risg

Mae CCAUC yn gweithredu system rheoli mewnol a ddyluniwyd i: nodi a blaenoriaethu'r risgiau o ran cyflawni polisïau ac amcanion strategol CCAUC; gweithio allan y tebygolrwydd y bydd y risgiau hynny yn cael eu gwireddu, a'r effeithiau pe baent yn cael eu gwireddu; a'u rheoli mewn ffordd effeithiol. Goruchwylir prosesau rheoli risg CCAUC gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ar ran y Cyngor.

Mae pob tîm o fewn CCAUC yn rheoli cofrestr risgiau sy'n cael ei hadolygu dair gwaith y flwyddyn. Mae'r Prif Weithredwr yn rheoli cofrestr risgiau ochr yn ochr â'r cynllun gweithredol, sy'n ein caniatáu i graffu ar ein perfformiad gweithredol, a gellir gwerthuso'n dadansoddiad o risgiau yn erbyn hwn. Os yw'r sgôr cyfunol ar gyfer tebygolrwydd ac effeithiau uwchben y lefel goddefiant a gytunwyd gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg, caiff y risg ei roi ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol. Caiff y Gofrestr Risgiau Corfforaethol ei hadolygu gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg dair gwaith y flwyddyn, a chaiff y canlyniadau eu hystyried gan y Cyngor.

Yn ogystal â'r prif gofrestri o risgiau, mae pob tîm yn cynhyrchu cofrestr o risg twyll. Caiff y risgiau sydd uwchlaw'r lefel goddefiant eu cynnwys ar Gofrestr Gorfforaethol o Risg Twyll. Mae goblygiadau'r Ddeddf Llwrwobrwyo 2010 wedi eu cynnwys wrth reoli risg twyll.

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg a'r Cyngor yn derbyn adroddiadau cyson ar ein system o adolygu risgiau sefydliadol, y broses a ddefnyddir gennym i asesu a monitro proffil risg cyffredinol pob sefydliad AU.

Yn ystod y flwyddyn gwnaethom werthuso ein dull o reoli risg ac er bod ein systemau'n ymddangos i fod yn effeithiol ar y cyfan, daethom i'r casgliad bod diffyg trosoledd o ran rhai risgiau cyd-destunol hirsefydlog, i'r graddau nad ydym wedi llwyddo i ddylanwadu ar y risgiau hynny neu eu lleihau. Byddwn yn datblygu ein prosesau rheoli risg er mwyn ceisio mynd i'r afael â'r mater hwn.

Materion sylweddol a ystyriwyd gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn.

Trefniadau grantiau ffioedd dysgu myfyrwyr

Y llynedd, adroddais fod y mater a'r datblygiad mwyaf sylweddol mewn perthynas â'n system rheoli mewnol a ddaeth i'r amlwg yn ystod 2012-13 yn ymwneud â newidiadau mawr gan Lywodraeth Cymru i'r ffordd y caiff addysg uwch ei hariannu. Canlyniad y newid hwn oedd bod cynnydd mewn cymorth ffioedd dysgu i fyfyrwyr Cymru a lleihad cymesur yng ngrant CCAUC, yn weithredol o ddechrau blwyddyn academaidd 2012/13. Mae'r polisïau hyn wedi parhau i achosi newidiadau sylweddol yn y ffordd mae CCAUC yn ariannu sefydliadau yn 2013-14 ac yn y dyfodol. Mae'r rhain yn feysydd risg sylweddol ar gyfer CCAUC, a chymerwyd camau pellach, felly, yn 2013-14 i fynd i'r afael â'r effeithiau.

Fel y cyfeiriwyd ato uchod, mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol wedi mynegi'r farn bod rhywfaint o risg o hyd ynghylch gwiriadau cymhwysedd grantiau ffioedd (gan awdurdodau

lleol), ond ni nodwyd unrhyw dystiolaeth o dueddiadau anarferol yn nhaliadau grantiau ffioedd gan y gwaith sicrwydd a gwblhawyd. Mae CCAUC wedi bod yn gyfrifol am dalu cyllid ar sail dyfarniadau cymhwysedd a wnaed gan awdurdodau lleol yn y ddwy flynedd ariannol 2012-13 a 2013-14. Cyfanswm hyn yw £129.3 miliwn yn y flwyddyn hyd 31 Mawrth 2014 (cynnydd o £48.1 miliwn yn 2012-13) O ystyried y buddion ariannol sydd ynghlwm, mae perygl y gallai myfyrwyr fod yn honni eu bod yn hanu o Gymru drwy dwyll. Cydnabyddir gan Lywodraeth Cymru nad yw'n hawdd ddiffinio'r rheolau sylfaenol o ran 'preswyllo arferol' sy'n effeithio ar lwyddiant cais myfyriwr. Bu'n ofynnol i staff awdurdodau lleol fod yn ofalus wrth wneud penderfyniadau a bu'n rhaid gwneud penderfyniad ar statws preswyllo bob myfyriwr, ac os gwneir hyn yn ddidwyll, rhaid i Lywodraeth Cymru dderbyn hyn.

Er nad oes gan CCAUC lawer o reolaeth dros sail y taliadau hyn, fel Swyddog Cyfrifyddu, mae gen i gyfrifoldeb i sicrhau y caiff arian ei wario mewn ffordd gyson a chywir. Ers i'r trefniadau newydd ar gyfer cyllid ffioedd dysgu myfyrwyr gael eu cyflwyno am y tro cyntaf yn 2012-13, cytunodd CCAUC a Llywodraeth Cymru na fyddai'n synhwyrol nac yn bosibl i CCAUC gyflawni gwaith sicrwydd y tu hwnt i'r hyn a gomisiynwyd eisoes gan Lywodraeth Cymru, a chytunwyd y gallai CCAUC ddibynnu ar y gwaith hwn.

Gan fod CCAUC yn dibynnu gymaint ar sicrwydd o Lywodraeth Cymru, fel y cytunwyd gan y ddau barti, darparwyd datganiad ar drefniadau ffioedd dysgu i CCAUC gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn cadarnhau bod rhywfaint o dystiolaeth o wendidau yn y prosesau a'r gweithdrefnau sydd yn y fframwaith rheolaeth a weithredir gan awdurdodau lleol, ond ar ôl dadansoddi'r ymatebion i'r Fenter Atal Twyll Genedlaethol a chanlyniadau archwiliadau gan awdurdodau lleol yng Nghymru (gweler y manylion isod), nid oes dystiolaeth o bwys o dwyll ar gyfer blwyddyn ariannol 2013-14.

Yn ei datganiad sicrwydd i CCAUC a grybwyllwyd uchod, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cadarnhau ei bod wedi derbyn datganiad sicrwydd blynyddol gan Swyddog Cyfrifyddu'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr. Mae'r datganiad yn cadarnhau bod holl drefniadau ariannol y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr wedi cydymffurfio â'r telerau a osodwyd gan adrannau'r llywodraeth a bod yr holl grantiau a dderbyniwyd wedi cael eu defnyddio i'w diben bwriadedig. Mae'r datganiad yn gorffen gan gadarnhau ei fod hefyd yn gallu cynnig sicrwydd ar y fframwaith rheolaeth effeithiol sydd ar waith gyda'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr ar gyfer blwyddyn ariannol 2013-14.

Comisiynwyd Swyddfa Archwilio Cymru gan Lywodraeth Cymru i gynnal adolygiad o arferion mewn pedwar awdurdod lleol yn 2012-13 ac wedi iddi ddod o hyd i sawl gwendid yn y gweithdrefnau a'r prosesau a fabwysiadwyd gan yr awdurdodau lleol, comisiynwyd gwaith gan Swyddfa Archwilio Cymru ar naw awdurdod lleol arall yn 2013-14 (fel y crybwyllwyd uchod). Canfyddiadau allweddol Swyddfa Archwilio Cymru o'r adroddiad hwn a gafodd eu cynnwys yn natganiad sicrwydd Llywodraeth Cymru i CCAUC oedd:

- Ers ein hadolygiad yn 2012 mae Llywodraeth Cymru wedi gwella agweddau o'i throsolwg a'i rheolaeth o gyllid myfyrwyr, er bod nifer fach o wendidau sylweddol yn dal i fodoli yn y system gyffredinol o reolaeth a weithredir ar y cyd gan Lywodraeth Cymru, y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr ac awdurdodau lleol; a
- Tra bod yr awdurdodau lleol wedi gweithredu canllawiau Llywodraeth Cymru'n dda ar y cyfan, gyda lefel is o ddiffyg cydymffurfiaeth o gymharu â'n profion yn 2012, roedd rhai o'r gwallau archwilio wedi tynnu sylw at nifer o wendidau sylweddol o fewn y system rheoli.

Rydym yn croesawu bod Swyddfa Archwilio Cymru wedi nodi gwelliannau yn y trefniadau rheolaeth yn ei hadroddiad diweddaraf.

Mae datganiad sicrwydd Llywodraeth Cymru hefyd yn cyfeirio at ymarfer peilot paru data myfyrwyr a gynhaliwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru a'r Comisiwn Archwilio fel rhan o Fenter Atal Twyll Genedlaethol yn 2013-14, ac roedd hwn yn ymdrin â cheisiadau a wnaed yn 2011 a 2012 ar gyfer tri awdurdod lleol yng Nghymru. Roedd hwn yn cymharu data ceisiadau myfyrwyr â'r gofrestr etholiadol ym mis Medi 2013 i gadarnhau manylion preswyllo. Canlyniad hyn oedd lefelau isel iawn o anomaleddau heb eu hesbonio, ac mae pob un ohonynt bellach wedi cael eu harchwilio gan yr awdurdodau lleol perthnasol, ac esboniwyd pob un yn foddhaol ac eithrio dau.

Dylid nodi y bydd cyfrifoldeb am brosesu ceisiadau am gyllid myfyrwyr yn newid o ddechrau'r flwyddyn academaidd 2014/15, a bydd y Cwmni Benthyciadau i Fyfywyr yn gyfrifol am yr holl ymgeiswyr newydd a'r awdurdodau lleol yn gyfrifol am y rhai sy'n adnewyddu yn unig. O flwyddyn academaidd 2015/16 ymlaen, bydd gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfywyr gyfrifoldeb am yr holl geisiadau gan fyfywyr. Bydd hyn yn sicrhau bod dull cyson o ymdrin â'r holl geisiadau, a chaiff hyn ei reoli gan Lywodraeth Cymru drwy'r Cwmni Benthyciadau i Fyfywyr.

Mae tystiolaeth bellach sydd ar gael i CCAUC yn cynnwys:

- Cadarnhad gan Lywodraeth Cymru bod deg o achosion yn unig lle roedd amheuaeth o dwyll a gafodd eu hadrodd i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfywyr gan Awdurdodau Lleol yn y flwyddyn ariannol 2013-14. Adolygwyd chwe achos allan o'r deg, a chanlyniad pedwar o'r chwech oedd mai ceisiadau cwbl anghymwys neu'n rhannol anghymwys oeddent. Mae'r pedwar achos sy'n weddill yn mynd rhagddynt yn barhaus.
- Canolbwyntiodd gwaith sicrwydd ychwanegol a gwblhawyd gan Bennaeth Archwilio Mewnol CCAUC ar ddadansoddi sail rhagolygon y Cwmni Benthyciadau i Fyfywyr a CCAUC o gymharu â thaliadau a data gwirioneddol fesul blwyddyn academaidd a blwyddyn ariannol. Ni nodwyd unrhyw dystiolaeth yn y gwaith sicrwydd o dueddiadau anarferol yn nhaliadau grantiau ffioedd ac felly ni nodwyd unrhyw dystiolaeth o broblemau systematig neu faterion sy'n ymwneud â thwyll o fewn y prosesau grantiau ffioedd;

Yn seiliedig ar yr holl dystiolaeth sydd ar gael inni, rydw i'n ystyried bod gennym ddigon o sicrwydd i ddod i'r casgliad nad oes tystiolaeth o dwyll sylweddol yn 2013-14 mewn perthynas â'n cyfrifon blyneddol, er bod risg yn dal i barhau o ran cywirdeb rhywfaint o wariant ar gyfer cymorth grantiau ffioedd i fyfywyr.

Casgliad

Rydw i wedi ystyried y dystiolaeth a ddarparwyd o ran cynhyrchu'r datganiad llywodraethu blyneddol. Casgliad fy adolygiad yw bod strwythurau llywodraethu cyffredinol a rheoli mewnol CCAUC wedi bod yn briodol ar gyfer busnes CCAUC ac maent wedi gweithio'n foddhaol drwy gydol 2013-14.

Dr David Blaney
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu
8 Gorffennaf 2014

Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru

Tystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014 o dan Baragraff 16(3) o Atodlen 1 y Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992. Mae'r rhain yn cynnwys y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, y Datganiad o Lif Arian, y Datganiad o Newidiadau mewn Ecwiti Trethdalwyr a'r nodiadau cysylltiedig. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisïau cyfrifyddu a amlinellwyd ynddynt. Rydw i hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad Cydnabyddiaeth, ac yn yr adroddiad nodwyd bod hyn wedi cael ei archwilio.

Priod gyfrifoldebau'r Prif Weithredwr a'r archwilydd

Fel yr esboniwyd yn fwy llawn yn Natganiad Cyfrifoldebau Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a'r Prif Weithredwr, mae'r Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynyddol, sy'n cynnwys yr Adroddiad Cydnabyddiaeth a'r datganiadau ariannol, yn unol â'r Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 a chyfarwyddyd Gweinidogion Cymru yn y ddeddf honno, ac yn gyfrifol am sicrhau cysondeb trafodion ariannol.

Fy nghyfrifoldeb yw archwilio'r datganiadau ariannol, a'r rhan o'r Adroddiad Cydnabyddiaeth y dylid ei harchwilio yn unol â'r cyfreithiau perthnasol ac yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Gyfrifyddu (DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hyn ei gwneud yn ofynnol i mi gydymffurfio â'r Safonau Moesegol i Archwilwyr a ddynodir gan y Bwrdd Arferion Archwilio.

Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

Mae archwiliad yn cynnwys casglu tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol sy'n ddigonol i roi sicrwydd rhesymol nad oes cam-ddweud o bwys yn y datganiadau ariannol, boed hynny o ganlyniad i dwyll neu gamgymeriad. Mae hyn yn cynnwys asesiad o: p'un a yw'r polisïau cyfrifyddu'n briodol ar gyfer amgylchiadau Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ac wedi cael eu gweithredu mewn ffordd gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymoldeb yr amcangyfrifon cyfrifyddu sylweddol a wnaed gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru; a'r ffordd y cyflwynir y datganiadau ariannol yn gyffredinol.

Yn ogystal, mae'n ofynnol imi ganfod tystiolaeth sy'n ddigonol i roi sicrwydd rhesymol y cafodd y gwariant a'r incwm eu defnyddio at y dibenion a bwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Yn ogystal, rwy'n darllen yr holl wybodaeth ariannol a gwybodaeth nad yw'n ariannol er mwyn canfod anghysondebau sydd o bwys yn y datganiadau ariannol archwiliedig. Os byddaf yn dod yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau o bwys rydw i'n ystyried y goblygiadau ar gyfer fy adroddiad.

Barn ar Ddatganiadau Ariannol

Yn fy marn i mae'r datganiadau ariannol yn:

- rhoi darlun clir a theg o sefyllfa Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru fel yr oedd ar 31 Mawrth 2014 ac o'i gostau gweithredu net ar ôl llog, ennillion a cholledion a llif arian cydnabyddedig ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben; a
- wedi cael ei baratoi mewn ffordd gywir yn unol â chyfarwyddyd Gweinidogion Cymru o dan y Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992.

Barn ar Reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol, defnyddiwyd gwariant ac incwm at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i:

- cafodd y rhan o'r Adroddiad Cydnabyddiaeth a fydd yn cael ei harchwilio ei pharatoi yn unol â chyfarwyddyd Gweinidogion Cymru o dan y Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992; ac
- mae'r wybodaeth sy'n ffurfio'r Sylwebaeth ar Reolaeth, yr Adroddiad Cynladwyedd a'r rhan o'r Adroddiad Cydnabyddiaeth na chaiff ei harchwilio, sydd wedi'i gynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol, yn cyd-fynd â'r datganiadau ariannol.

Materion yr ydw i'n eu hadrodd yn ôl eithriad

Does gen i ddim byd i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol yr ydw i'n eu hadrodd i chi os, yn fy marn i:

- nad yw'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn dangos cydymffurfiaeth â chanllawiau Thrysorlys EM;
- na chadwyd cofnodion cyfrifyddu priodol;
- na ddatgelwyd gwybodaeth a nodwyd gan Drysorlys EM sy'n ymwneud â chydabyddiaeth a thrafodion eraill; neu
- os nad ydw i wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

Adroddiad

Does gen i ddim sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Huw Vaughan Thomas
Archwilydd Cyffredinol Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

15 Gorffennaf 2014

**Datganiad cryno o'r gwariant net cynhwysfawr
am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014**

		2014		2013	
	Nodiadau	£'000	£'000	£'000	£'000
Gwariant					
<i>Cyllido addysg uwch:</i>					
Gwariant rheolaidd	3	382,987		370,647	
Dibenion eraill	5	12,237		18,324	
		<u>395,224</u>		<u>388,971</u>	
<i>Gwariant y Cyngor:</i>					
Costau staff	7	1,830		2,293	
Dibrisiant	9	60		50	
Gwariant arall	6	521		600	
		<u>2,411</u>		<u>2,943</u>	
Cyfanswm y gwariant			(397,635)		(391,914)
Incwm					
Incwm o weithgareddau	2		<u>11,611</u>		<u>22,048</u>
Costau gweithredu net			(386,024)		(369,866)
Llog a dderbyniwyd			-		3
Dyraniadau	8		<u>-</u>		<u>(1)</u>
Costau gweithredu net ar ôl trosglwyddo'r llog i ecwiti'r trethdalwyr			<u>(386,024)</u>		<u>(369,864)</u>

Mae'r holl weithgareddau yn barhaus.

Nid oes ennillion na cholledion cydnabyddedig yn 2013-14 na 2012-13.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 38 i 54 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

**Datganiad o'r sefyllfa ariannol
ar 31 Mawrth 2014**

	Nodiadau	Ar 31 Mawrth 2014 £'000	Ar 31 Mawrth 2013 £'000
Asedau nad ydynt yn gyfredol			
Eiddo, offer a chyfarpar	9	122	115
Asedau anniriaethol	10	-	-
Cyfanswm asedau nad ydynt yn gyfredol		<u>122</u>	<u>115</u>
Asedau cyfredol			
Masnach a derbyniadwyon eraill	11	4,588	12,668
Arian a chyfwerth ag arian	12	2,990	6,502
Cyfanswm yr asedau cyfredol		<u>7,578</u>	<u>19,170</u>
Cyfanswm yr asedau		7,700	19,285
Rhwymedigaethau cyfredol			
Masnach a thaladwyon eraill	13	(1,262)	(7,437)
Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau o fewn blwyddyn	14	<u>(1)</u>	<u>(1)</u>
Cyfanswm asedau nad ydynt yn gyfredol ac asedau cyfredol net		6,437	11,847
Rhwymedigaethau nad ydynt yn gyfredol			
Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau ar ôl blwyddyn	14	(20)	(22)
Asedau llai'r rhwymedigaethau		<u>6,417</u>	<u>11,825</u>
Ecwiti'r trethdalwyr		6,417	11,825
Cronfa wrth gefn gyffredinol		<u>6,417</u>	<u>11,825</u>
		<u>6,417</u>	<u>11,825</u>

Mae'r nodiadau ar dudalennau 38 i 54 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Llofnodwyd ar ran CCAUC

Dr David Blaney
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu
8 Gorffennaf 2014

Datganiad o lif arian
am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014

	Nodiadau	2014	2013
		£'000	£'000
Llif arian parod o weithgareddau gweithredol			
Costau gweithredu net cyn llog		(386,024)	(369,866)
Dibrisiant		60	50
Lleihad/(cynnydd) ym masnach a derbyniadwyon eraill		8,080	(11,191)
(Lleihad)/cynnydd ym masnach a thaladwyon eraill		(6,175)	6,331
Newid yn narpariaeth ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau o fewn blwyddyn		-	-
Newid yn narpariaethau		(2)	3
All-lif arian net o weithgareddau gweithredol		<u>(384,061)</u>	<u>(374,673)</u>
All-lif arian o enillion ar fuddsoddiadau a benthyciadau ariannol			
Llog a dderbyniwyd		-	3
Llog a ildiwyd i Lywodraeth Cymru		-	(1)
All-lif arian net o enillion ar fuddsoddiadau a benthyciadau ariannol		<u>-</u>	<u>2</u>
Llifau arian o weithgareddau buddsoddi			
Prynu eiddo, offer a chyfarpar	9	<u>(67)</u>	<u>(30)</u>
All-lif arian net o weithgareddau buddsoddi		<u>(67)</u>	<u>(30)</u>
Llif arian parod o weithgareddau ariannu			
Cyllid gan Lywodraeth Cymru		<u>380,616</u>	<u>373,653</u>
Llif arian parod o weithgareddau ariannu		<u>380,616</u>	<u>373,653</u>
Lleihad net mewn arian a chyfwerth ag arian		<u>(3,512)</u>	<u>(1,048)</u>
Arian a chyfwerth ag arian ar ddechrau'r cyfnod		6,502	7,550
Arian a chyfwerth ag arian ar ddiwedd y cyfnod	12	2,990	6,502
Lleihad net mewn arian parod		<u>(3,512)</u>	<u>(1,048)</u>

Mae'r nodiadau ar dudalennau 38 i 54 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

**Datganiad o newidiadau mewn ecwiti trethdalwyr
am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014**

	Cronfa wrth gefn gyffredinol £'000
Balans ar 1 Ebrill 2013	<u>11,825</u>
Newid mewn ecwiti trethdalwyr 2013-14	
Costau gweithredu net	<u>(386,024)</u>
Cyfanswm incwm a chostau cydnabyddedig ar gyfer 2013-14	<u>(386,024)</u>
Cyllid gan Lywodraeth Cymru	380,616
Balans ar 31 Mawrth 2014	<u><u>6,417</u></u>

Mae'r nodiadau ar dudalennau 38 i 54 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

Nodiadau i'r cyfrifon

1. Datganiad o bolisiau cyfrifyddu

(a) Sail cyfrifyddu

Paratowyd y cyfrifon hyn yn unol â'r cyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru, gyda chaniatâd y Trysorlys, wrth arfer pwerau a roddwyd ym mharagraff 16(2), atodlen 1 o'r Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992.

Paratowyd y cyfrifon hyn yn unol â Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth (FRoM) a gyhoeddir gan Drysorlys EM. Mae'r polisiau cyfrifo yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth yn gweithredu Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol fel y'u haddaswyd neu dehonglwyd ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Lle mae Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth yn caniatáu dewis o bolisiau cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu y barnwyd ei fod mwyaf priodol ar gyfer amgylchiadau penodol CCAUC at ddibenion rhoi darlun clir a theg. Disgrifir y polisiau penodol a fabwysiadwyd gan CCAUC isod. Fe'u rhoddwyd ar waith yn gyson wrth fynd i'r afael ag eitemau yr ystyrir eu bod o bwys i'r cyfrifon.

(b) Grantiau ar gyfer Prosiectau'r Undeb Ewropeaidd (UE)

Incwm:

Mae CCAUC yn derbyn incwm grantiau sy'n ymwneud â phrosiectau'r UE o ddwy ffynhonnell. Caiff incwm grantiau o Lywodraeth Cymru sy'n cefnogi prosiectau Cronfa Gymdeithasol Ewrop ei gredydu i'r gronfa wrth gefn gyffredinol yn y flwyddyn y caiff ei wario. Caiff incwm yr UE sy'n cefnogi prosiectau Cronfa Gymdeithasol Ewrop ei gredydu i'r datganiad o wariant net cynhwysfawr yn y flwyddyn y caiff gwariant ei dalu.

Gwariant:

Fel ymgeisydd ar gyfer prosiectau Ewropeaidd sy'n contractio gyda thrydydd partïon i gyflawni'r prosiectau, mae atebolrwydd CCAUC yn codi pan gaiff cais dilys o dderbynnydd y grant ei dderbyn.

(c) Cyllid

Caiff cyllid cymorth grant ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru i ariannu gweithgareddau refeniw cyffredinol. Ystyrir y swm hwn o gymorth grant yn gyllid a chaiff ei gredydu i'r gronfa wrth gefn gyffredinol wrth iddo gael ei dderbyn.

(d) Grantiau taladwy

Caiff y cyfrifon hyn eu paratoi fesul blwyddyn ariannol hyd 31 Mawrth, ond caiff grantiau sy'n daladwy eu talu fesul blwyddyn academiaidd hyd 31 Gorffennaf. Caiff grantiau sy'n daladwy eu cofnodi fel gwariant yn y cyfnod y mae'r derbynnydd yn cyflawni'r gweithgaredd ynddo, ac mae hyn yn creu hawl. Caiff grantiau sy'n gylchol eu natur, yn bennaf y cyllid rheolaidd a ddarperir i Sefydliadau Addysg Uwch, eu dwyn i gyfrif wrth dalu. Ym marn CCAUC, mae'r driniaeth hon yn cyflawni cyfatebiaeth ym mhob ffordd berthnasol rhwng cyllid grant a ddygir i gyfrif a'r patrwm o weithgarwch ariannol yn y Sefydliadau Addysg Uwch.

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru

Cyfrifir am grantiau cymorth ffioedd dysgu ar sail taladwy neu groniadau. Mae'r grantiau hyn yn daladwy i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr (SLC). Mae'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr yn ariannu Sefydliadau Addysg Uwch i dalu, ar ran myfyrrwyr, cost y gwahaniaeth rhwng ffioedd dysgu a godir gan y Sefydliadau Addysg Uwch a'r benthyciad ffioedd dysgu sydd ar gael i fyfyrrwyr.

(e) Costau pensiynau

Caiff cyflogeion yn y gorffennol a'r presennol eu cynnwys o dan ddarpariaethau trefniadau'r Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae CCAUC yn cydnabod y gost ddisgwyliedig o ddarparu pensiynau ar sail systematig a rhesymegol dros y cyfnod y bydd yn elwa ar wasanaethau cyflogeion drwy dalu symiau ar sail gronol i Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Mae'r atebolrwydd am dalu buddion yn y dyfodol yn gyfrifoldeb i'r PCSPS.

Mae cyn Gadeirydd CCAUC wedi'i gynnwys o dan gynllun pensiwn sy'n gyfatebol â'r PCSPS. Mae CCAUC yn gwneud taliadau i'r cyn Gadeirydd pan maent yn ddyledus. Fodd bynnag, cydnabyddir y gost ddisgwyliedig o ddarparu'r pensiwn drwy gronni darpariaeth am atebolrwydd yn y dyfodol a gyfrifir gan ddefnyddio tybiaethau asesedig actiwariaidd.

(f) Eiddo, offer a chyfarpar

Caiff eiddo, offer a chyfarpar eu cario ar werth teg. Defnyddir cost hanesyddol a ddibrisiwyd fel procsi ar gyfer gwerth teg yr holl ddosbarthiadau o'r asedau hyn gan fod gan bob un naill ai fywyd defnyddiol byr neu werth isel, neu'r ddau.

Caiff asedau technoleg gwybodaeth sy'n costio dros £500 ac unrhyw osodiadau, ffitiadau neu gyfarpar eraill sy'n costio dros £1,000 eu cyfalafu.

Darperir dibrisio ar bob un o'r asedau hyn ar gyfraddau a gyfrifir i ddiddymu cost pob ased ar sail y dull llinell syth dros ei fywyd defnyddiol disgwyliedig, a hynny'n adlewyrchiad realistig o ddefnydd yr ased, fel y dangosir isod. Codir tâl am flwyddyn lawn o ddibrisiad yn y flwyddyn gaffael.

Asedau technoleg	
gwybodaeth	- 3 blynedd
Cyfarpar trydanol	- 5 mlynedd
Gosodiadau a ffitiadau	- 5 mlynedd

Caiff unrhyw newidiadau i'r swyddfa a gynhwysir yn y gosodiadau a'r ffitiadau eu hamorteiddio dros y cyfnod sy'n weddill o'r les, o'r dyddiad prynu.

(g) Asedau sefydlog anniriaethol

Caiff trwyddedau meddalwedd sy'n costio dros £500 eu cyfalafu.

Darperir amorteiddio ar yr holl asedau sefydlog anniriaethol ar gyfraddau a gyfrifir er mwyn diddymu cost pob ased ar sail y dull llinell syth dros ei fywyd defnyddiol disgwyliedig fel y dangosir isod. Codir tâl am flwyddyn gyfan o amorteiddio yn y flwyddyn gaffael.

Trwyddedau	- 3 blynedd
meddalwedd	

(h) Treth Ar Werth

Gan nad yw CCAUC wedi'i gofrestru ar gyfer TAW, mae'r holl drafodion yn y cyfrifon yn cynnwys unrhyw TAW priodoladwy.

(i) Lesau gweithredu

Caiff tâl a godir am renti les gweithredol ei ychwanegu at y datganiad cost weithredu yn y flwyddyn berthnasol.

(j) Offerynnau ariannol

Asedau ariannol: Nid yw derbyniadwyon masnach yn cario unrhyw log, ac fe'u datgenir ar eu gwerth enwol fel y'u lleiheir gan lwfansau priodol ar gyfer symiau anadferadwy amcangyfrifedig. Arian parod yw arian parod wrth fancio ar delerau mynediad ar unwaith.

Rhwymedigaethau ariannol: Nid yw taladwyon masnach yn dwyn llog ac fe'u datgenir ar eu gwerth enwol.

(k) Adrodd cylchrannol

Mae'r Llawlyfr Adrodd Ariannol yn annog cyrff cyhoeddus i fodloni gofynion y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS 8) i adrodd gwybodaeth sy'n ymwneud â chylchrannau gweithredu lle bodlonir y meini prawf sydd o dan IFRS 8. Mae CCAUC yn ystyried bod ei weithgareddau'n cyfrannu at un genhadaeth sy'n gweithredu o fewn yr un amgylchedd busnes ac ystyrir nad oes cylchrannau gweithredu y gellir eu gwahanu. O ganlyniad nid yw CCAUC yn adrodd drwy gylchrannau gweithredu.

(l) Costau staff a secondiadau

Mae staff ar secondiadau fel arfer yn parhau i gael eu talu gan CCAUC. Caiff ad-daliad o gostau ar gyfer staff ar secondiadau ei ddebydu yn erbyn costau staff yn nodyn 7 y cyfrifon.

(m) Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol a gyflwynwyd ond nad ydynt yn weithredol

O dan Safon Cyfrifo Ryngwladol (IAS) 8 ar Bolisiâu Cyfrifo, rhaid i sefydliadau ddatgelu manylion unrhyw IFRS a gyflwynwyd, ond nid yw hyn yn weithredol eto. Fel ar 31 Mawrth 2014, cyflwynwyd y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol canlynol, ac ni fydd yr un ohonynt yn berthnasol nac yn effeithio ar gyfrifon blynyddol CCAUC:

IFRS 1 – Mabwysiadu Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol am y Tro Cyntaf (yn weithredol 1 Gorffennaf 2014)

IFRS 2 – Taliadau wedi'u seilio ar Gyfranddaliadau (yn weithredol 1 Gorffennaf 2014)

IFRS 3 – Cyfuniadau Busnes (yn weithredol 1 Gorffennaf 2014)

IFRS 8 – Segmentau Gweithredol (yn weithredol 1 Gorffennaf 2014)

IFRS 9 – Offerynnau ariannol (newydd) (nid oes dyddiad gweithredol gofynnol)

IFRS 10 – Datganiadau ariannol cyfunol (yn weithredol 1 Ionawr 2014)

IFRS 11 – Trefniadau ar y cyd (yn weithredol 1 Ionawr 2014)

IFRS 12 – Datgelu buddiant mewn endidau eraill (yn weithredol 1 Ionawr 2014)

IFRS 13 – Mesur gwerth teg (yn weithredol 1 Gorffennaf 2014)

IAS 16 – Eiddo, offer a chyfarpar (yn weithredol 1 Gorffennaf 2014)

Amnewidiad IAS 17 – Lesoedd (nid oes dyddiad targed ar gyfer IFRS)

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru

Amnewidiad IAS 18 – Cydnabod Refeniw a Chydnabod Rhwymedigaethau (yn weithredol 1 Ionawr 2015)

IAS 19 – Buddion cyflogeion (yn weithredol 1 Gorffennaf 2014)

IAS 24 – Datguddiadau Partïon Perthnasol (yn weithredol 1 Gorffennaf 2014)

IAS 27 – Datganiadau Ariannol Cyfunol (yn weithredol 1 Ionawr 2014)

IAS 38 – Asedau Anniriaethol (yn weithredol 1 Gorffennaf 2014)

IAS 40 – Eiddo Buddsoddi (yn weithredol 1 Gorffennaf 2014)

2. Incwm o weithgareddau

	2014 £'000	2013 £'000
Undeb Ewropeaidd – Cronfa Gymdeithasol Ewrop	2,454	2,223
Yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau – Cronfa Buddsoddi Cyfalaf Ymchwil	5,070	5,115
Llywodraeth Cymru – Athrofa Prifysgolion Blaenau'r Cymoedd Cyllid Blwyddyn 3 (a)	-	4,366
Ysgoloriaethau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol	330	230
Llywodraeth Cymru - ECTARC Cyf (b)	96	75
Twf Swyddi Cymru (c)	622	39
Llywodraeth Cymru - Cyllid Cyfalaf ar gyfer Ystadau a Seilwaith (d)	-	6,000
Llywodraeth Cymru – Cyllid seilwaith TGCh ar gyfer uno Sefydliadau Addysg Uwch (e)	-	4,000
Gwella Perfformiad Amgylcheddol drwy Ymgysylltu â Myfyrwyr (f)	68	-
Cronfa Buddsoddi Partneriaeth Ymchwil y DU (g)	2,658	-
Cyd-rwydwaith Academaidd y DU (Janet 6) (h)	313	-
	<u>11,611</u>	<u>22,048</u>

(a) Caiff y cyllid hwn ei dalu i Brifysgol Morgannwg ond o 2013-14 caiff ei gynnwys o fewn cyllid rheolaidd.

(b) Mae'r cyllid hwn yn ymwneud ag ECTARC Cyf yn darparu lleoliadau gwaith UE i raddedigion o Gymru.

(c) Mae'r cyllid hwn yn ymwneud â phrosiect gyda Llywodraeth Cymru i roi cyfleoedd gwaith i raddedigion ym musnesau yng Nghymru.

(d) Mae'r cyllid hwn ar gyfer prosiectau cyfalaf at ddibenion ystadau neu seilwaith.

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru

- (e) Mae'r cyllid hwn yn ymwneud â chostau integreiddio TGCh fel rhan o'r broses o uno Prifysgol Morgannwg a Phrifysgol Cymru, Casnewydd ym mis Ebrill 2013 yn dilyn sefydlu Prifysgol De Cymru.
- (f) Mae hwn yn brosiect a ariennir ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a chwe sefydliad addysg uwch yng Nghymru
- (g) Mae hwn yn gyllid o Gronfa Buddsoddi Partneriaeth Ymchwil y DU (RPIF y DU) ar gyfer y Sefydliad Ymchwil Diogelwch Ynni ym Mhrifysgol Abertawe.
- (h) Mae hwn yn gyllid i gynorthwyo costau darparu 'Janet 6' er mwyn galluogi cyd-rwydwaith academiaidd (Janet) i barhau i ddarparu gwasanaethau i sefydliadau addysg uwch yng Nghymru. Caiff y cyllid hwn ei dalu i JISC.

3. Cyllido addysg uwch

	2014	2013
	£'000	£'000
Sefydliadau addysg uwch		
Prifysgol Aberystwyth	17,621	27,462
Prifysgol Bangor	18,985	27,986
Prifysgol Caerdydd	88,166	100,577
Prifysgol Abertawe	30,836	35,884
Prifysgol Glyndŵr	9,140	12,669
Prifysgol Cymru, Casnewydd (gweler (a) isod)	-	14,853
Prifysgol Fetropolitan Caerdydd	7,395	18,838
Prifysgol Fetropolitan Abertawe (gweler (b) isod)	1,197	9,089
Prifysgol Cymru, Y Drindod Dewi Sant (gweler (b) isod)	9,313	9,848
Prifysgol Morgannwg (gweler (a) isod)	-	43,114
Prifysgol De Cymru (gweler (a) isod)	44,674	-
Prifysgol Cymru	650	450
Prifysgol Agored	15,049	10,604
Is-gyfanswm	243,026	311,374
Y Cwmni Benthyciadau i Fyfirwyr Cyf (gweler (c) isod)	129,264	48,098
Sefydliadau Addysg Bellach		
Coleg Pen-y-bont	2	33
Coleg Sir Gâr	919	1,060
Coleg Llandrillo	609	1,043
Coleg Castell-nedd Port Talbot	102	151
Coleg Gŵyr Abertawe	44	36
Is-gyfanswm	1,676	2,323
Cariwyd ymlaen	373,966	361,795

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru

	2014	2013
	£'000	£'000
Dygydd ymlaen	373,966	361,795
Sefydliadau eraill		
Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol	494	625
Elsevier BV	25	-
Cyngor Ymchwil Peirianeg a'r Gwyddorau Ffisegol	31	-
Uned Herio Cydraddoldeb	58	58
Cyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr (CCAULI)	374	1,340
Gwasanaethau HESA Cyf	1	42
HESA	36	-
Yr Academi Addysg Uwch	612	709
Addysg Uwch Cymru	45	84
Cyfrifiadura Perfformiad Uchel Cymru	600	1,000
JANET (DU) Cyf	2,806	1,937
KPMG LLP	-	25
Sefydliad Arweinyddiaeth	47	-
Canolfan Genedlaethol ar gyfer Prifysgolion a Busnesau	23	-
Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr	20	10
Parity Solutions Ltd	47	80
Public and Corporate Economic Consultants Cyf	21	-
Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd	295	283
Universities UK	31	-
Llywodraeth Cymru	245	490
WJEC CBAC Cyf	69	56
Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol	6,104	4,141
Arall (gweler (d) isod)	465	544
Is-gyfanswm	12,449	11,424
Cyfanswm	386,415	373,219
Llai'r gwariant a ariannwyd gan Gronfa Gymdeithasol	(2,806)	(2,533)
Ewrop (gweler nodyn 5)		
Llai'r gwariant Twf Swyddi Cymru (gweler nodyn 5)	(622)	(39)
Cyfanswm	382,987	370,647

(a) Ar 11 Ebrill 2013, unodd Prifysgol Morgannwg â Phrifysgol Cymru, Casnewydd ac ailenwyd y sefydliad newydd yn Brifysgol De Cymru.

(b) Ar 1 Awst 2013, diddymwyd Prifysgol Fetropolitan Abertawe a throsglwyddwyd ei hasedau a'i rhwymedigaethau i Brifysgol Cymru, Y Drindod Dewi Sant.

(c) Blwyddyn gyfrifyddu 2013/14 yw'r ail flwyddyn lle mae CCAUC yn talu cyllid ar gyfer grantiau cymorth ffioedd dysgu myfyrwyr i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfywyr. Yna, mae'r Cwmni Benthyciadau i Fyfywyr yn talu sefydliadau addysg uwch (SAUau) yn ôl eu myfyrwyr cymwys. Fel y dangosir uchod, talwyd £129.3m i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfywyr yn y flwyddyn ariannol. Mae'r cynnydd o £48.1m yn 2012-13 yn adlewyrchu effaith ariannu grantiau cymorth ffioedd dysgu i'r ail garfan o fyfyrwyr. Y newid hwn yn y llif arian i SAUau o CCAUC sy'n gyfrifol am y lleihad yng nghyfanswm y taliadau cyllid rheolaidd i SAUau a ddangosir uchod.

Yn seiliedig ar ddata'r Cwmni Benthyciadau i Fyfirwyr sydd ar gael i CCAUC, yr hyn a ddyrannwyd i sefydliadau addysg uwch ar ffurf taliadau grantiau ffioedd dysgu yn y flwyddyn ariannol 2013-14 a blwyddyn ariannol 2012-13 oedd:

	2014	2013
	%	%
SAUau Cymru	61.7	65.5
SAUau eraill y DU	38.3	34.5

Gan weithredu'r canrannau hyn ar gyfanswm y taliadau a wnaed gan CCAUC i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfirwyr, amcangyfrifir bod y taliadau tybiannol a wnaed i SAUau yn gyfwerth â:

	2014	2013
	£'000	£'000
SAUau Cymru	79,756	31,504
SAUau eraill y DU	49,508	16,594
	<u>129,264</u>	<u>48,098</u>

(d) Mae hyn yn cynnwys cyfraniad o £250 mil o'r gyllideb rhaglenni at gostau rhedeg, tâl a chyflogau fel y datgelir yn nodyn 7.

4. Grantiau i sefydliadau

Caiff grantiau i sefydliadau eu cynnwys yn y cyfrifon hyn, ac mae'r rhain yn amodol ar gadarnhad gan archwilwyr allanol y derbynnydd eu bod wedi cael eu defnyddio i'w diben bwriadedig. Mae blwyddyn ariannol sefydliadau addysg uwch yn dod i ben ar 31 Gorffennaf a darperir eu cyfrifon archwiliedig i CCAUC erbyn 31 Rhagfyr. Cadarnhaodd archwiliad gan staff CCAUC o ddatganiadau ariannol sefydliadau yn 2012/13 bod archwilwyr allanol pob sefydliad o'r farn bod y grantiau wedi cael eu defnyddio i'w diben bwriadedig ac felly nid oedd yn angenrheidiol addasu'r grantiau. Yn ogystal, nid oedd yr archwiliad o niferoedd myfirwyr a wnaed yn haf 2013 wedi arwain at unrhyw addasiadau o bwys. Caiff unrhyw addasiad sy'n deillio o archwiliad 2013/14 o gyfrifon a niferoedd myfirwyr ei wneud gan CCAUC yn y blynyddoedd i ddod.

Mae CCAUC yn cadarnhau bod y grantiau a dderbyniodd gan Lywodraeth Cymru wedi cael eu defnyddio i'w dibenion cymeradwy.

5. **Gwariant at ddibenion eraill**

	2014 £'000	2013 £'000
Cronfa Gymdeithasol Ewrop (a)	2,806	2,533
Cronfa Buddsoddi Cyfalaf Ymchwil (b)	5,070	5,115
Athrofa Prifysgol Blaenau'r Cymoedd (c)	-	4,365
Ysgoloriaethau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol	305	197
ECTARC Cyf (d)	96	75
Twf Swyddi Cymru (e)	622	39
Cyllid Cyfalaf ar gyfer Ystadau a Seilwaith (f)	-	6,000
Gwella Perfformiad Amgylcheddol drwy Ymgysylltu â Myfyrwyr (g)	51	-
Cronfa Buddsoddi Partneriaeth Ymchwil y DU (h)	2,658	-
Cyfraniad Cyfalaf tuag at Uno (i)	629	-
	<u>12,237</u>	<u>18,324</u>

- (a) Mae'r symiau sy'n ymwneud â thaliadau grant a wneir i sefydliadau addysg uwch o dan Gronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) yn destun archwiliadau ar wahân. Cyfrifir am unrhyw addasiad sy'n deillio o'r archwiliadau hyn yn y blynyddoedd i ddod.
- (b) Rhoddir dadansoddiad o gyllid cyfalaf ymchwil fesul sefydliad addysg uwch isod:

	2014 £'000	2013 £'000
Prifysgol Aberystwyth	749	760
Prifysgol Bangor	557	570
Prifysgol Caerdydd	2,791	2,847
Prifysgol Abertawe	973	938
	<u>5,070</u>	<u>5,115</u>

- (c) Gwnaed y taliad hwn i Brifysgol Morgannwg yn unol â'r Cytundeb rhwng Gweinidogion Cymru a CCAUC dyddiedig 16 Chwefror 2010. Mae talu cyllid yn ddibynnol ar gynnydd boddhaol yn erbyn targedau a chanlyniadau penodedig. Bellach, caiff y cyllid hwn ei gynnwys o fewn cyllid rheolaidd.
- (d) Telir y cyllid hwn i ECTARC Cyf i ddarparu lleoliadau gwaith i raddedigion yng Nghymru.
- (e) Mae'r rhain yn gostau sy'n ymwneud â phrosiect i ddarparu cyfleoedd gwaith i raddedigion mewn busnesau yng Nghymru.
- (f) Mae hwn yn gyllid cyfalaf ar gyfer prosiectau sy'n cefnogi datblygu neu gynnal naill ai darpariaethau ystadau amhreswyl neu ddarpariaethau seilwaith eraill.

Rhoddir dadansoddiad o'r cyllid cyfalaf hwn isod:

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru

	2014 £'000	2013 £'000
Prifysgol Aberystwyth	-	445
Prifysgol Bangor	-	334
Prifysgol Caerdydd	-	1,670
Prifysgol Abertawe	-	550
Prifysgol Cymru, Y Drindod Dewi Sant	-	409
Prifysgol Cymru, Casnewydd	-	643
Prifysgol Fetropolitan Abertawe	-	452
Prifysgol Morgannwg	-	1,497
	<u>-</u>	<u>6,000</u>

- (g) Mae'r gwaith hwn yn cael ei wneud gan Wasanaethau Elusennol UCM ar y cyd â chwe Sefydliad Addysg Uwch yng Nghymru
- (h) Mae hwn yn gyllid a ddaw o Gronfa Buddsoddi Partneriaeth Ymchwil y DU (UK RPIF) ar gyfer y Sefydliad Ymchwil Diogelwch Ynni ym Mhrifysgol Abertawe.
- (i) Mae hwn yn gyllid cyfalaf a delir i Brifysgol De Cymru (Prifysgol Morgannwg yn flaenorol) fel cyfraniad at y costau sy'n gysylltiedig ag uno â Phrifysgol Cymru, Casnewydd ar 11 Ebrill 2013.

6. Gwariant arall

	2014 £'000	2013 £'000
Costau gweinyddu		
Costau llety	241	327
Costau swyddfa	43	36
Gwasanaethau a brynwyd i mewn	30	44
Cydnabyddiaeth archwilwyr – Ffi archwilio blynyddol CCAUC	25	22
Cydnabyddiaeth archwilwyr – Gwaith adroddiad sicrwydd ychwanegol	-	4
Costau teithio a chynhaliaeth aelodau'r cyngor	6	5
Costau cyfarfod aelodau'r cyngor	12	14
Costau teithio a chynhaliaeth staff	29	16
Gwariant ar hyfforddiant, recriwtio ac ati sy'n gysylltiedig â staff	23	34
Costau technoleg gwybodaeth	112	98
	<u>521</u>	<u>600</u>

Archwilydd CCAUC yn ystod y flwyddyn oedd Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Ni chodwyd tâl am gostau gweinyddol yng nghostau rheolaidd y rhaglen ar gyfer 2013-14 (2013 - £8 mil).

7. **Costau staff**

(a) **Dadansoddiad**

	2014			2013		
	Staff	Aelodau'r Cyngor (gan gynnwys Prif Weithredwr)	Cyfanswm	Staff	Aelodau'r Cyngor (gan gynnwys Prif Weithredwr)	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Tâl a chyflogau	1,580	194	1,774	1,901	181	2,082
Costau nawdd cymdeithasol	133	17	150	163	16	179
Costau eraill yn ymwneud â phensiynau	313	29	342	370	30	400
Costau ymadael gwirfoddol	-	-	-	65	-	65
Cyfanswm	2,026	240	2,266	2,499	227	2,726
costau'r gyflogres Staff ar secondiad Llai:	4	-	4	-	-	-
newidiadau i gostau rhaglen	(440)	-	(440)	(433)	-	(433)
Costau'r_gyflogres weinyddu	1,590	240	1,830	2,066	227	2,293

Datgelir rhagor o wybodaeth am gostau'r cynllun Ymadael Gwirfoddol yn 2012-13 yn yr Adroddiad Cydnabyddiaeth ar dudalen 21 o'r cyrifon hyn. Mae swm o £250 mil wedi'i gynnwys yn y £440 mil a godwyd ar gostau rhaglen yn 2013-14. Mae hyn yn gyfraniad at dâl a chyflogau costau rhedeg a drosglwyddwyd o gyllideb y rhaglen yn unol â chytundeb â Llywodraeth Cymru.

(b) **Pensiynau**

Mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) yn gynllun buddiannau nad yw'n cael ei ariannu ac a ddiffinnir gan fwy nag un cyflogwr, ond nid yw CCAUC yn gallu canfod ei gyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau gwaelodol. Gwnaeth Actiwari'r Cynllun roi gwerth ar y cynllun fel ar 31 Mawrth 2007. Gallwch gael manylion yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Pensiynau Sifil (www.civilservice.gov.uk/pensions).

Ar gyfer 2013-14, roedd cyfraniadau cyflogwyr o £334,311 yn daladwy i'r PCSPS (2012-13 - £397,981) ar un o'r pedair cyfradd yn yr ystod 16.7 i 24.3 y cant o dâl pensiynadwy, yn seiliedig ar fandiau cyflog. Fel arfer, mae Actiwari'r Cynllun yn adolygu cyfraniadau gan y cyflogwr bob pedair blynedd yn dilyn prisiad llawn o'r cynllun. Caiff y cyfraddau cyfrannu eu pennu i dalu cost y buddiannau sy'n cronni yn 2013-14 i'w talu pan mae'r aelod yn ymddeol, ac nid y buddiannau a delir yn ystod y cyfnod hwn i'r rhai sydd eisoes yn bensiynwyr.

Mae cyn Gadeirydd y Cyngor yn derbyn buddiannau pensiwn cyffelyb (BBA) gyda'r PCSPS.

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru

Ni ariennir darpariaeth pensiwn cyffelyb, a chaiff y buddiannau eu talu wrth iddynt fod yn ddyledus, ac fe'u gwarantir gan CCAUC. Nid oes cronfa ac felly nid oes arian dros ben na diffyg nac asedau. Cyfrifir y rhwymedigaethau cynllun am wasanaethau gan Adran Actiwari'r Llywodraeth bob dwy flynedd, a gwnaed hyn ar ddiwedd 2012-13 a'r cyfanswm oedd £23,000 ar 31 Mawrth 2013.

(c) Nifer cyfartalog y staff a gyflogir

Ar gyfartaledd, cyflogodd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru 43 o staff cywerth ag amser llawn yn ystod y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014, fel a ganlyn:

	2014 Niferoedd	2013 Niferoedd
Uwch Reolwyr	2	2
Swyddfa'r Prif Weithredwr	8	9
Ymgysylltiad Sefydliadol	12	13
Sgiliau, Addysg a Chyllid	-	12
Datblygu Strategol	12	-
Gwasanaethau Corfforaethol	9	11
	<u>43</u>	<u>47</u>

Nid oedd un o'r aelodau o staff a gafodd eu cynnwys yn Ymgysylltiad Sefydliadol uchod yn aelod o staff parhaol.

	2014 Niferoedd	2013 Niferoedd
Staff a chanddynt gontract cyflogaeth DU parhaus gyda CCAUC	42	46
Staff eraill sy'n cyflawni amcanion CCAUC	1	1
	<u>43</u>	<u>47</u>

(d) Data absenoldeb oherwydd salwch

	2014	2013
Cyfradd absenoldeb oherwydd salwch (%)	2.17	1.31
Nifer y diwrnodau gwaith a gollwyd	253	186
Brasamcan cost y diwrnodau a gollwyd	<u>£32,269</u>	<u>£23,178</u>

Mae brasamcan cost y diwrnodau gwaith a gollwyd yn seiliedig ar y cyflog ar lefel 4 (cam 4) lefel staff rheolaeth ganol.

8. **Dyraniadau**

	2014 £'000	2013 £'000
Derbyniadau y gellir eu hildio i Lywodraeth Cymru: Llog banc (net o daliadau a godwyd gan y banc)	<u>-</u>	<u>1</u>

9. **Eiddo, offer a chyfarpar**

	Cyfarpar technoleg gwybodaeth £'000	Gosodiadau a ffitiadau £'000	Cyfanswm £'000
Cost			
Ar 1 Ebrill 2013	401	286	687
Ychwanegiadau	67	-	67
Gwarediadau	(34)	-	(34)
Ar 31 Mawrth 2014	<u>434</u>	<u>286</u>	<u>720</u>
Dibrisiant			
Ar 1 Ebrill 2013	381	191	572
Tâl a godwyd yn ystod y flwyddyn	34	26	60
Rhyddhawyd ar warediadau	(34)	-	(34)
Ar 31 Mawrth 2014	<u>381</u>	<u>217</u>	<u>598</u>
Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2014	<u>53</u>	<u>69</u>	<u>122</u>
Gwerth llyfr net ar 1 Ebrill 2013	<u>20</u>	<u>95</u>	<u>115</u>
Cyllido asedau			
Asedau sy'n eiddo			
Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2014	<u>53</u>	<u>69</u>	<u>122</u>

10. **Asedau sefydlog anniriaethol**

	Trwyddedau meddalwedd £'000
Cost	
Ar 1 Ebrill 2013 ac ar 31 Mawrth 2014	<u>30</u>
Amorteiddiad	
Ar 1 Ebrill 2013 ac ar 31 Mawrth 2014	<u>30</u>
Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2014	<u>-</u>
Gwerth llyfr net ar 1 Ebrill 2013	<u>-</u>

11. **Derbyniadwyon masnach ac asedau cyfredol eraill**

	2014 £'000	2013 £'000
Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn		
Derbyniadwyon masnach	25	6,000
Rhagdaliadau ac incwm cronedig	4,562	6,667
Derbyniadwyon eraill	1	1
	<u>4,588</u>	<u>12,668</u>
Balansau mewnlywodraethol		
Cyrff llywodraeth ganolog eraill	2,932	12,421
Awdurdodau lleol	-	-
Ymddiriedolaethau GIG	-	-
Corfforaethau cyhoeddus a chronfeydd masnachu	-	-
Balansau gyda chyrrff llywodraeth eraill	<u>2,932</u>	<u>12,421</u>
Balansau gyda chyrrff anllywodraethol	<u>1,656</u>	<u>247</u>
	<u>4,588</u>	<u>12,668</u>

Yn 2013, cyllid cyfalaf gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â phrosiectau ystadau a seilwaith sefydliadau AU oedd 'Derbyniadwyon masnach'. Roedd 'Rhagdaliadau ac incwm cronedig' yn cynnwys £4,000 mil a oedd yn dderbyniadwy mewn perthynas â chyllid seilwaith o Lywodraeth Cymru ar gyfer uno Prifysgol Morgannwg a Phrifysgol Cymru, Casnewydd.

12. **Arian a chyfwerth ag arian**

	2014 £'000	2013 £'000
Arian a ddelir o dan Wasanaeth Bancio'r Llywodraeth		
Balans ar 1 Ebrill	3,058	-
Newid net ym malansau arian a chyfwerth ag arian	(645)	3,058
Balans ar 31 Mawrth	<u>2,413</u>	<u>3,058</u>
Arian a ddelir o dan fanciau masnachol ac arian mewn llaw		
Balans ar 1 Ebrill	3,444	7,550
Newid net ym malansau arian a chyfwerth ag arian	(2,867)	(4,106)
Balans ar 31 Mawrth	<u>577</u>	<u>3,444</u>
Cyfanswm arian a chyfwerth ag arian	<u>2,990</u>	<u>6,502</u>

Mae Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth (GBS) yn wasanaeth bancio ledled y Llywodraeth a ddarperir ar y cyd gan Citibank a Banc Brenhinol yr Alban, ac fe'i goruchwylir yn ganolog gan dîm y Gwasanaeth, sy'n cael ei reoli gan Drysorlys EM yn y pen draw. Nid yw CCAUC yn ennill unrhyw log ar unrhyw falans a ddelir yng nghyfrifon Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth. Derbyniodd CCAUC ganiatâd gan Drysorlys EM i barhau i ddefnyddio cyfleusterau bancio masnachol i wneud taliadau.

13. **Taladwyon masnach a rhwymedigaethau cyfredol eraill**

	2014 £'000	2013 £'000
Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn		
Croniadau	1,215	7,436
Trethiant a nawdd cymdeithasol arall	46	-
Credydwy'r amrywiol	1	1
	<u>1,262</u>	<u>7,437</u>
 Balansau mewnlywodraethol		
Cyrff llywodraeth ganolog eraill	46	-
Awdurdodau lleol	-	-
Ymddiriedolaethau GIG	-	-
Corfforaethau cyhoeddus a chronfeydd masnachu	-	-
Balansau gyda chyrff llywodraeth eraill	<u>46</u>	<u>-</u>
 Balansau gyda chyrff anllywodraethol	<u>1,216</u>	<u>7,437</u>
	<u>1,262</u>	<u>7,437</u>

Mae swm o £497 mil (2013 - £409 mil) wedi'i gynnwys yn y ffigurau hyn o ganlyniad i SAUau mewn perthynas â phrosiect Cydgyfeirio Cronfa Gymdeithasol Ewrop GO Wales.

Yn 2013, cafodd (i) £6,000 mil ei gynnwys yn y ffigurau hyn a oedd yn ymwneud â dosbarthu cyllid cyfalaf i SAUau ar gyfer prosiectau ystadau a seilwaith; a (ii) £395 mil a oedd yn ymwneud â chostau Cynllun Ymadael Gwirfoddol staff. Er bod y staff a oedd yn ymadael o dan y Cynllun Ymadael Gwirfoddol wedi gadael ar neu cyn 31 Mawrth 2013, ni chodwyd tâl ar CCAUC gan Swyddfa'r Cabinet am y mwyafrif o'r costau tan ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol.

14. **Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau**

	2014 £'000	2013 £'000
Rhwymedigaeth pensiynau cyffelyb (gweler nodyn 7(b))	21	23
	<u>21</u>	<u>23</u>
Dadansoddiad o amseru rhwymedigaeth		
Dyledus o fewn blwyddyn	1	1
Dyledus rhwng 2015 a 2020	7	6
Dyledus rhwng 2021 a 2031	13	16
O hynny ymlaen	-	-
	<u>21</u>	<u>23</u>

15. Ymrwymïadau o dan lesioedd

Lesioedd gweithredu

Rhoddir cyfanswm y taliadau les isafswm yn y dyfodol o dan lesioedd gweithredu yn y tabl isod ar gyfer pob un o'r cyfnodau dilynol.

	2014	2013
	£'000	£'000

Mae ymrwymïadau o dan lesioedd gweithredu yn cwmpasu:

Adeiladau

Dim hwyrach nag un flwyddyn	82	82
Yn hwyrach nag un flwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd	201	283
Yn hwyrach na phum mlynedd	-	-
	<u>283</u>	<u>365</u>

Caiff gwariant yn y flwyddyn ar gostau lesio o £82 mil ei gynnwys yn nodyn 6.

16. Ymrwymïadau cyfalaf

	2014	2013
	£'000	£'000

Ymrwymïadau cyfalaf dan gontract ar 31 Mawrth 2014 nas cynhwysir fel arall yn y cyfrifon hyn

Eiddo, offer a chyfarpar

Dan gontract

	<u>-</u>	<u>-</u>
--	----------	----------

17. Ymrwymïadau ariannol eraill a rhwymedigaethau digwyddiadol

	2014	2013
	£'000	£'000

Grantiau refeniw (a)	119,781	131,584
Prosiectau Ewropeaidd (b)	6,367	9,942
	<u>126,148</u>	<u>141,526</u>

(a) Caiff y swm hwn ei ariannu gan gymorth grant gan Lywodraeth Cymru hyd fis Gorffennaf 2014.

(b) Caiff prosiectau Ewropeaidd eu cyllido fel a ganlyn:

	2014	2013
	£'000	£'000

Grantiau Cronfa Gymdeithasol Ewrop	5,498	8,103
CCAUC	869	1,839
	<u>6,367</u>	<u>9,942</u>

Mae gan y Prosiectau Ewropeaidd ymrwymiadau ariannol o £2,533 mil i'w hariannu drwy gyfraniadau arian cyfatebol allanol gan sefydliadau Addysg Uwch a busnesau bach a chanolig.

Fel ar 31 Mawrth 2014, nid oedd rhwymedigaethau digwyddiadol (2013 – dim).

18. Colledion a thaliadau arbennig

	2014 £	2013 £
Taliadau ofer	-	418

19. Partïon cysylltiedig

Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru yw Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. Ystyrir Llywodraeth Cymru yn barti cysylltiedig. Yn ystod y flwyddyn, mae CCAUC wedi cael amryw drafodion o bwys â Llywodraeth Cymru, a ystyrir yn riant Adran i'r sefydliad.

Mae'r aelodau canlynol o'r Cyngor a'r uwch reolwyr canlynol wedi ymrwmo i berthnasau a ystyrir yn bartïon cysylltiedig, ac fe'i dangosir yn y tabl isod: -

Enw	Perthynas
Mr Roger Thomas (Cadeirydd y Cyngor)	◆ Doethur er Anrhydedd, Prifysgol Morgannwg
Mr David Mason (Aelod o'r Cyngor)	◆ Cymrawd er Anrhydedd, Prifysgol Cymru, Casnewydd
Mrs Bethan Guilfoyle CBE (Aelod o'r Cyngor)	◆ Doethur mewn Addysg er Anrhydedd, Prifysgol Morgannwg
Yr Athro Robin Williams CBE (Aelod o'r Cyngor)	<ul style="list-style-type: none"> ◆ Athro Emeritws, Prifysgol Cymru ◆ Athro Emeritws, Prifysgol Abertawe ◆ Cymrawd Anrhydeddus, Prifysgol Caerdydd ◆ Cymrawd Anrhydeddus, Prifysgol Bangor ◆ Cymrawd Anrhydeddus, Prifysgol Abertawe ◆ Aelod o'r Bwrdd Cyngori, CAFMaD, Prifysgol Aberystwyth ◆ Aelod, Grŵp Ymgynghorol ar gyfer Peirianeg, Prifysgol Abertawe ◆ Cymrawd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ◆ Ei ferch yn gyflogai Prifysgol Abertawe
Yr Athro Mark Smith (Aelod o'r Cyngor)	<ul style="list-style-type: none"> ◆ Aelod o'r Bwrdd, Awdurdod Safonau Addysg Uwch ◆ Aelod, Rhwydwaith Cyngori Strategol, EPSRC
Yr Athro Stephen Tomlinson CBE (Aelod o'r Cyngor)	◆ Athro Emeritws, Prifysgol Caerdydd

Mae unrhyw gyllid a gaiff ei dalu i'r sefydliadau a'r cyrff a nodir uchod wedi'i nodi yn nodyn 3, fel arall roedd y cyllid a dalwyd yn y flwyddyn yn sero. Nid yw'r un o'r staff rheoli allweddol neu bartion cysylltiedig wedi cyflawni unrhyw drafodion o bwys gyda Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.

20. Offerynnau ariannol

O dan IFRS 7 a Safonau Cyfrifo Rhyngwladol (IAS) 32 a 39, mae'n ofynnol i sefydliad gyflwyno a datgelu gwybodaeth am yr effeithiau posibl y gall offerynnau ariannol eu cael ar ei sefyllfa a'i berfformiad ariannol, ac am ba mor agored i risg ydyw.

Risgiau hylifedd – Yn 2013-14 roedd £380.6m neu 97.0% o incwm CCAUC wedi dod gan Lywodraeth Cymru (2012-13: £373.6m neu 94.4%). O'r incwm a oedd yn weddill roedd £11.6m neu 3.0% wedi dod o log banc ac incwm o weithgareddau (2012-13: £22.0m neu 5.6%). Nid yw CCAUC yn ystyried bod ei weithgareddau cyffredinol yn agored i unrhyw risg hylifedd sylweddol, ac mae'n fodlon bod incwm y dyfodol yn ddigonol i dalu am ei ymrwymadau.

Risgiau cyfradd llog – Nid yw balansau arian bellach yn cael eu dal mewn cyfrifon sy'n dwyn llog ac felly nid yw gweithgareddau cyffredinol CCAUC yn agored i risgiau cyfradd llog.

Risg arian tramor – Nid yw gweithgareddau cyffredinol CCAUC yn agored i unrhyw risgiau cyfnewid tramor sylweddol.

Risg llif arian – Nid yw CCAUC yn agored i unrhyw risgiau llif arian sylweddol.

21. Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Ni fu unrhyw ddigwyddiadau, ar ôl dyddiad y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol hyd at y dyddiad yr awdurdodwyd cyhoeddi'r datganiadau ariannol hyn gan y Swyddog Cyfrifyddu ar 8 Gorffennaf 2014, a fyddai wedi golygu bod yn rhaid addasu'r cyfrifon.